



Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol-
Ynglŷn â'r cynnig am Ysgol Gatholig 3-16
newydd yn y Rhyl
Mehefin 2017

Os bydd angen copi o'r adroddiad hwn arnoch ar ffurf copi caled, anfonwch e-bost at moderneiddioaddysg@sirddinbych.gov.uk gyda'ch enw a'ch cyfeiriad post. Nodwch a fydddech yn dymuno derbyn y ddogfen yn Gymraeg, Saesneg neu'r ddwy.

Tabl cynnwys

Nifer	Adran	Tudalen
1.	Cyflwyniad	3
2.	Ymgynghoriad Ffurfiol	3
3.	Cyfarfodydd	4
4.	Ymatebion i'r Ymgynghoriad	4
5.	Ffurflenni Ymateb	7
6.	Ymateb gan Estyn	7
ATODIAD A	Rhestr o'r Sefydliadau a gafodd y Ddogfen Ymgynghori	11
ATODIAD B	Crynodeb o'r sylwadau/cwestiynau a godwyd yn y cyfarfodydd	13
ATODIAD C	Canfyddiadau Cyngor Ysgol	23
ATODIAD D	Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd drwy lythyr ac e-bost	35
ATODIAD E	Crynodeb o'r ymatebion drwy Ffurflen Ymateb Ffurfiol i'r Ymgynghoriad	37
ATODIAD F	Ymateb Estyn	47

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) ac Esgobaeth Wrecsam wedi cwblhau cyfnod o ymgynghori ffurfiol ynghylch cynnig Cyngor Sir Ddinbych ac Esgobaeth Wrecsam i gau Ysgol Mair/ Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ar 31 Awst 2019; i sefydlu Ysgol Gatholig 3-16 newydd ar y safle presennol o'r 1 Medi 2019 ymlaen.
- 1.2. Y cynnig yw y bydd yr ysgol newydd yn ysgol 3-16, cyfrwng Saesneg, a gynorthwyr yn wirfoddol.
- 1.3. Dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol ar 15 Chwefror 2017 a daeth i ben ar 30 Mawrth 2017.
- 1.4. Yn dilyn diwedd cyfnod ymgynghori trefniadaeth ysgolion, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynigwyr gyhoeddi adroddiad ymgynghori. Yn y ddogfen hon mae'n rhaid i ni:
 - Grynhoi pob un o'r materion a godwyd gan bobl yr ydym yn siarad â nhw ac sy'n ysgrifennu atom ni;
 - Dangos ein hymateb i'r materion hynny; a
 - Gosod safbwynt Estyn o fanteision cyffredinol yr hyn yr ydym yn ei ystyried.
- 1.5. Dylai'r rhai sy'n llunio penderfyniadau ystyried yr adroddiad hwn cyn penderfynu a ddylid gweithredu unrhyw gynig ai peidio.

2. Ymgynghoriad Ffurfiol

- 2.1. Anfonwyd fersiynau copi caled ac electronig o'r Ddogfen Ymgynghori ffurfiol at 2,412 o dderbynwyr. Mae rhestr lawn o'r derbynwyr yn **Atodiad A.**
- 2.2. Cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori ffurfiol ar wefan CSDd ac ar wefan Esgobaeth Wrecsam ar 15 Chwefror 2017. Rydym hefyd wedi cynhyrchu gwahanol fersiynau o'r ddogfen Ymgynghori Ffurfiol, un ar gyfer disgyblion cynradd – fersiwn Plant, ac un arall ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd – fersiwn Pobl Ifanc.
- 2.3. Cyhoeddwyd yr holl ddogfennau, gan gynnwys y ddogfen ymgynghori ffurfiol, asesiad o effaith cymunedol, cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, ymgynghoriad plant a phobl ifanc a fersiwn electronig o'r ffurflen ymateb ar wefan Cyngor Sir Ddinbych a gwefan Esgobaeth Wrecsam. Roedd yr holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- 2.4. Er mwyn cynorthwyo ac annog pobl i gyflwyno eu safbwyntiau, cynhyrchwyd dogfen ymateb (Ffurflen Ymateb Ffurfiol i'r Ymgynghoriad). Roedd y Ffurflen Ymateb yn ffurfio rhan o'r Ddogfen Ymgynghori ac felly fe'i chyhoeddwyd ar wefan CSDd ac Esgobaeth Wrecsam. Trawsnewidiwyd y Ffurflen Ymateb yn arolwg ar-lein; ac fe gyhoeddwyd dolen i'r arolwg ar wefan CSDd ac Esgobaeth Wrecsam.

2.5. Cyhoeddwyd Dogfen o Gwestiynau Cyffredin hefyd ac fe gyfieithwyd y ddogfen i Gymraeg, Pwyleg a Tagalog. Gadawyd nifer o gopiau caled o'r holl fersiynau o'r ddogfen hon yn Ysgol y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Mair.

3. Cyfarfodydd

3.1 Cynhaliwyd cyfarfodydd fel a ganlyn:

- Gyda Llywodraethwyr Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones - 27 Chwefror 2017.
- Gyda staff Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones – 28 Chwefror 2017,
- Cyfarfod Cyhoeddus gyda'r Gwir Barchedig Peter M.Bignall, Esgob Wrecsam, Neuadd y Dref y Rhyl – 7 Mawrth 2017
- Gyda rhieni Ysgol Mair – 8 Mawrth 2017,
- Gyda rhieni'r Bendigaid Edward Jones - 9 Mawrth 2017,
- Cyngor Ysgol y Bendigaid Edward Jones - 7 Mawrth (am),
- Cyngor Ysgol yn Ysgol Mair – 7 Mawrth (pm),
- Cyngor Ysgol Emmanuel – 13 Mawrth.

3.2 Mae crynodeb o'r pwyntiau a godwyd yn y cyfarfodydd hyn a'r ymatebion a roddwyd ar gael yn **Atodiad B.**

3.3 Trefnwyd sesiynau ymgynghori ar gyfer Cyngorau Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones, gan fod yr ysgolion yn rhan uniongyrchol o'r cynigion. Gellir canfod crynodeb o'r sesiynau yn **Atodiad C.** Cynigwyd sesiynau ymgynghori i gynghorau ysgol yn Ysgol Bryn Hedydd, Ysgol Llywelyn, Ysgol Emmanuel ac Ysgol Christchurch hefyd. Derbyniodd Ysgol Emmanuel y cynnig hwn ac mae manylion y sesiwn ymgynghori yn **Atodiad C.**

3.4 Fel rhan o'r trefniadau ymgynghori â disgyblion, darparwyd ffurflen ymateb briodol i'r oedran yn benodol ar gyfer y disgyblion hefyd. Derbyniwyd cyfanswm o 73 ffurflenni disgyblion gan ddisgyblion blwyddyn 4/5 Ysgol Mair. Mae'r sylwadau a'r cwestiynau a gyflwynwyd gan ddisgyblion drwy'r ffurflenni hefyd wedi'u crynhoi yn **Atodiad C.**

4. Ymateb i'r Ymgynghoriad

4.1 Cafwyd cyfanswm o 106 o ymatebion ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori a oedd yn cynnwys ymateb gan Estyn ac Undeb GMB. Mae'r tabl isod yn dangos y cysylltiad â'r naill ysgol (neu ddiffyg cysylltiad) pob ymatebydd:

Cysylltiad Ymatebwr	Cyfanswm
Ysgol Mair	21
Ysgol y Bendigaid Edward Jones	65
Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones	7

Dim cysylltiad / Ni nodwyd cysylltiad/ Arall	13
Cyfanswm	106

4.2 Mae'r gefnogaeth ar gyfer y cynnig fel a ganlyn:

	Cyfanswm
O blaid y Cynnig	98
Yn erbyn y Cynnig	5
Heb nodi'r naill ffordd na'r llall	3
Cyfanswm	106

4.3 Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau a ddefnyddiwyd i ymateb i'r ymgynghoriad:

Dull cysylltu	Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd
Ffurflenni ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad	100
Llythyrau	1
E-bost	5
Cyfanswm	106

4.4 Roedd yr ymatebwyr fel a ganlyn:

Ymateb fel:	Nifer
Disgybl	4
Rhiant	40
Aelod o staff	30
Aelod o'r Gymuned	15
Llywodraethwr Ysgol	8
Rhiant- lywodraethwr	2
Arall	7

Cyfanswm nifer y cysylltiadau	106
--------------------------------------	------------

4.5 O'r rhieni, gan gynnwys 2 riant-lywodraethwr, a ymatebodd, roedd eu dosbarthiad fesul ysgol fel a ganlyn:

Ymateb fel:	Nifer
Ysgol Mair	9
Ysgol y Bendigaid Edward Jones	27
Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones	5
Arall	1
Cyfanswm	42

4.6 O'r llywodraethwyr, gan gynnwys 2 riant-lywodraethwr, a ymatebodd, roedd eu dosbarthiad fesul ysgol fel a ganlyn:

Ymateb fel:	Nifer
Ysgol Mair	2
Ysgol y Bendigaid Edward Jones	5
Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones	1
Arall	2
Cyfanswm	10

4.7 O'r staff a ymatebodd, mae eu dosbarthiad fesul ysgol fel a ganlyn:

Ymateb fel:	Nifer
Ysgol Mair	5
Ysgol y Bendigaid Edward Jones	25
Cyfanswm	30

4.8 O'r 4 disgybl a ymatebodd, mae eu dosbarthiad fesul ysgol fel a ganlyn:

Ymateb fel:	Nifer
Ysgol Mair	0
Ysgol y Bendigaid Edward Jones	3
Arall – Ysgol Bryn Hedydd	1
Cyfanswm	4

4.9 Mae **Atodiad D** yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd mewn llythyrau ac e-byst.

5 Ffurflenni Ymateb

5.1 Dyluniwyd y Ffurflen Ymateb Ffurfiol i'r Ymgynghoriad i sefydlu:

- a oedd pobl o blaid y Cynigion neu beidio;
- ym mha gapasiti y maent yn anfon ymateb;
- a oedd ganddynt gysylltiad â'r naill ysgol ai peidio;
- beth oedd yn dylanwadu ar eu safbwyntiau am y Cynigion ac unrhyw sylwadau negyddol neu gadarnhaol oedd ganddynt;
- A oedd ganddynt unrhyw ddewisiadau amgen i'r cynnig presennol yr oeddent eisiau i'r cynigwyr ei ystyried;
- a fyddent yn anfon eu plentyn (plant) i'r ysgol 3-16 newydd pe bai'r Cynigion yn cael eu gweithredu; ac
- a oeddent eisiau cyflwyno unrhyw sylwadau eraill.

5.2 Mae crynodeb o'r ymatebion ar y Ffurflen Ymateb Ffurfiol i'r Ymgynghoriad wedi'i nodi yn **Atodiad E** ynghyd ag ymateb y Cynigwyr.

6 Ymateb gan Estyn

Mae'r prif bwyntiau a wnaed gan Estyn mewn ymateb i'r Cynigion ac ymateb y Cynigwyr iddynt isod. Mae'r ymateb llawn gan Estyn yn **Atodiad F**.

Sylwadau Estyn	Ymateb y Cynigwyr
Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol addysg yn yr ardal o leiaf.	Cytunwyd
Mae'r cynigydd wedi ystyried manteision ac anfanteision y cynnig o gymharu â'r sefyllfa bresennol yn briodol.	Cytunwyd

<p>Mae'r cynigydd wedi arddangos y bydd y niferoedd a ragwelir erbyn 2021 yn gadael dros 300 o leoedd gwag yn yr ysgol.</p>	<p>Mae'r amcanestyniad yn cynnwys cyfuniad o amcanestyniadau Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones.</p> <p>Rhagwelwn y bydd yr ysgol newydd yn denu disgyblion ychwanegol fel y mae tystiolaeth o adeiladau newydd yn dangos. Ar hyn o bryd mae nifer isel o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd Catholig mewn awdurdodau cyfagos ac yna'n trosglwyddo i Ysgol y Bendigaid Edward Jones. Rhagwelwn efallai y bydd y cynnig hwn yn gwrthwneud y duedd hon.</p> <p>Yn adran 13 o'r ddogfen Ymgynghori Ffurfiol rydym yn nodi'r galw yn y dyfodol ar gyfer tref y Rhyl a phwysigrwydd cynnal opsiwn cynradd ac uwchradd.</p>
<p>Mae'r cynnig yn amlinellu diffyg ariannol amcanestynedig ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ar ddiwedd 2017/18 a 2018/19. Nid yw'r cynigydd wedi rhoi digon o ystyriaeth i sut y cynhelir yr ysgol newydd ym mlynnyddoedd cyntaf ei gweithrediad wrth i garfannau isel, yn benodol, symud drwy gam uwchradd yr ysgol.</p>	<p>Bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu'r sefyllfa ariannol yn ofalus yn seiliedig ar niferoedd disgyblion. Mae prosiectau diweddar wedi nodi bod angen cefnogaeth ychwanegol yn ystod y cam pontio ac y byddai'n rhaid trafod a chytuno ar unrhyw geisiadau o'r fath yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion.</p>
<p>Mae'r cynigydd wedi ystyried yr effaith ar ysgolion eraill yn yr ardal a allai gael eu heffeithio gan y cynigion. Mae wedi amlinellu sut y gallai'r ysgol newydd gynnig lleoedd i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd sy'n orlawn ar hyn o bryd.</p>	<p>Cytunwyd</p>
<p>Mae'r cynigydd wedi dangos yn briodol y rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn Ysgol Uwchradd y Rhyl yn cynyddu ac efallai na fydd digon o le i dderbyn disgyblion o Ysgol Gatholig y Bendigaid Edward Jones pe bai'r ysgol yn rhoi'r gorau i ddarparu addysg uwchradd.</p>	<p>Cytunwyd</p>
<p>Mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynnig ar drefniadau teithio dysgwyr. Mae'n bwriadu parhau i gefnogi cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â</p>	<p>Cytunwyd</p>

pholisi cludiant o'r cartref i'r ysgol y Cyngor.	
Mae'r cynigydd wedi cwblhau asesiad o effaith ar gydraddoldeb cychwynnol a ddaeth i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar grŵp penodol yn y gymdeithas.	Cytunwyd
Mae'r cynigydd hefyd yn ystyried effaith y cynigion ar y Gymraeg ac yn dod i'r casgliad rhesymol na fydd unrhyw effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg na'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.	Cytunwyd
Mae'r cynigydd wedi darparu tablau o ddata perfformiad ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4. Mae'r tablau yn darparu gwybodaeth am berfformiad yr ysgol yn erbyn y cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddadansoddiad sydd o'r wybodaeth yn y tablau. Nid yw'r cynigydd yn darparu data am berfformiad disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.	Credwn fod y paragraffau yn adran 19.10 a 19.11 yn glŷn ag effaith y canlyniadau a'r ddarpariaeth yn rhoi cyd-destun i'r ffigurau. Fe wnaethom ganolbwyntio ar y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4. Rydym yn cydnabod y dylid cynnwys Cyfnod Allweddol 3 hefyd – mae'r holl ystadegau yn deillio o wefan Fy Ysgol Leol. Gellir canfod gwybodaeth am berfformiad disgyblion Cyfnod Allweddol 3 Ysgol y Bendigaidd Edward Jones yn y tabl isod:

Canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig – Dangosydd Pwnc Craidd Cyfnod Allweddol 3

	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Ysgol - Cyfanswm	54.9%	51.2%	59.1%	56.9%	62.2%	55.8%	78.3%
Teulu - Cyfanswm	53.1%	58.6%	63.7%	69.1%	74.6%	76.6%	81.4%
Awdurdod Lleol - Cyfanswm	63.9%	65.5%	71.9%	75.0%	83.2%	84.3%	86.4%
Cymru - Cyfanswm	63.7%	68.0%	72.5%	77.0%	81.0%	83.9%	85.9%

Mae manylion pellach Cyfnod Allweddol 3, 2016 isod:

	Dangosydd Pwnc Craidd	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth
Ysgol	78.3%	86.7%	81.7%	90.0%
Teulu	81.4%	86.8%	88.0%	90.3%
Awdurdod Lleol	86.4%	89.5%	90.9%	93.1%
Cymru	85.9%	89.2%	90.1%	92.8%

Mae'r darparwr yn ystyried yn briodol na ddylid cael effaith andwyol ar gynnydd a lles disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.	Cytunwyd
Mae'r cynigydd wedi amlinellu y bydd y cynnig yn debygol o wella ansawdd yr addysgu a dysgu. Mae'r cynigydd yn arddangos yn glir y bydd yr adeilad newydd yn darparu amgylchedd dysgu gwell ar gyfer yr holl ddisgyblion.	Cytunwyd
Mae'r cynigydd hefyd yn nodi sut y bydd y cyfleusterau newydd yn galluogi'r ysgol i gynnig cwricwlwm priodol ac amrywiol yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r cynigydd hefyd yn nodi manteision cael ardaloedd a rennir megis y capel a'r ardal fwyta a manteision cynorthwyo pontio rhwng cyfnodau allweddol a chamau addysgol.	Cytunwyd

ATODIAD A

Rhestr o'r Sefydliadau a gafodd y Ddogfen Ymgynghori

Rhi f	Budd-ddeiliad	Nifer sydd wedi derbyn y ddogfen
1.	Rhieni Disgyblion Ysgol Mair*	209
2.	Rhieni disgyblion y Bendigaid Edward Jones *	254
3.	Rhieni disgyblion Ysgol Christchurch*	269
4.	Rhieni disgyblion Ysgol Emmanuel*	313
5.	Rhieni disgyblion Ysgol Llywelyn*	468
6.	Rhieni disgyblion Ysgol Bryn Hedydd*	349
7.	Athrawon a staff cymorth Ysgol Mair	37
8.	Athrawon a staff cymorth Ysgol y Bendigaid Edward Jones	48
9.	Athrawon a staff cymorth Ysgol Christchurch	66
10.	Athrawon a staff cymorth Ysgol Emmanuel	63
11.	Athrawon a staff cymorth Ysgol Llywelyn	66
12.	Athrawon a staff cymorth Ysgol Bryn Hedydd	54
13.	Cyrff Llywodraethu Ysgol Mair, y Bendigaid Edward Jones, Ysgol Christchurch, Ysgol Emmanuel, Ysgol Llywelyn ac Ysgol Bryn Hedydd.	6
14.	Cynghorau ysgol yn Ysgol Mair, y Bendigaid Edward Jones, Ysgol Christchurch, Ysgol Emmanuel, Ysgol Llywelyn ac Ysgol Bryn Hedydd.	6
15.	Esgobaeth Llanelwy	1
16.	Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr holl Ysgolion Sir Ddinbych (Cynradd, Uwchradd ac Ysgolion Arbennig)	112
17.	Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr yr Ysgolion Cynradd canlynol yng Nghonwy: <ul style="list-style-type: none"> • Ysgol Gatholig Sant Joseff • Ysgol y Bendigaid William Davies, 	4

18.	Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn	2
19.	Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Gatholig Ein Harglwyddes,	2
20.	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych a Phartneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant	2
21.	Darparwyr meithrinfeydd annibynnol yn ardal y Rhyl	7
22.	Coleg Llandrillo	1
23.	Partneriaeth Chweched y Rhyl a Phrestatyn	1
24.	Pob Aelod o Gyngor Sir Ddinbych	47
25.	Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol Lleol a rhanbarthol	8
26.	Cyngor Tref y Rhyl	1
27.	Llywodraeth Cymru	3
28.	Estyn	1
29.	Pob undeb llafur athrawon a staff cymorth perthnasol	6
30.	Taith	1
31.	Gwasanaeth Effeithlonwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) Gogledd Cymru	1
32.	Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	1
33.	Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	1
34.	Cyngor Sir y Fflint	1
35.	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	1
	Cyfanswm	2,412

*anfonwyd un copi at bob teulu

ATODIAD B

Crynodeb o'r sylwadau/cwestiynau a godwyd yn y cyfarfodydd

Cyfarfod ar y cyd ar gyfer cyrff llywodraethu Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones
– 27 Chwefror 2017

Rhif	Sylw / Cwestiwn a godwyd	Ymateb
1.	Beth sy'n mynd i ddigwydd i'r disgyblion yn ystod y cam adeiladu?	<p>Mae hyn wedi'i ystyried eisoes. O ran y gwaith adeiladu, byddai'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda'r contractwr i sicrhau iechyd a diogelwch y disgyblion a'r staff. Cynhaliwyd trafodaethau rhagarweiniol gyda chontractwyr ac mae'n amlwg y byddai angen cynllun clir wedi'i reoli'n dda.</p> <p>Mae gwaith ar y gweill yn Ysgol Glan Clwyd ar hyn o bryd ac mae wedi bod yn gynllun adeiladu fesul cam, a gall weithio pan gaiff ei drefnu'n dda.</p>
2.	A fydd yn adeilad cwbl newydd?	Bydd, y cynnig yw adeilad cwbl newydd. Y gyllideb yw £23.8 miliwn a bydd angen rheoli disgwyliadau pobl o ran yr hyn y gellir ei ddarparu am y pris hwn.
3.	Gan ystyried yr ardal yr ydym yn ei gwasanaethu - a fydd cymorth ariannol ar gael o ran y wisg newydd?	Bydd, mae'r math hwn o gymorth wedi'r ddarparu pan fo cynigion trefniadaeth ysgolion eraill wedi'u darparu h.y. Yn Ysgol Carreg Emlyn darparwyd 1 crys chwys fesul disgybl, byddwn yn ystyried cefnogi rhywbeth tebyg.
4.	Ansicrwydd o ran niferoedd disgyblion wrth fynd drwy'r cyfnod pontio hwn.	Mae'r Awdurdod Lleol a'r Esgobaeth yn credu y bydd y niferoedd yn cynyddu, yn enwedig yn y sector uwchradd. Mae gan yr Awdurdod Lleol dystiolaeth gref mewn perthynas â'r hyn sydd wedi digwydd yn Ysgol Uwchradd y Rhyl ers agor yr adeilad newydd.
5.	Y grŵp oedran a nodwyd ar gyfer yr ysgol yw 3-16, beth am y cyfleuster cylch chwarae? A beth fydd yn digwydd i'r clwb brecwast?	Mae'r cylch chwarae a'r clwb brecwast wedi'u cynnwys yn ein hystyriaethau wrth gynllunio'r ysgol newydd.
6.	Bydd gan rieni bryderon bod plant ifanc yn cymysgu gyda'r rhai hŷn.	<p>Gall y model 3-16 weithio'n dda iawn pan drefnir yr ysgol yn dda a phan gynllunnir diwrnod yr ysgol yn effeithiol.</p> <p>Bydd y cyfnodau allweddol wedi'u gwahanu. Mae'r ethos y gellir ei greu ar gyfer ysgol 3-16 yn un gofalgaf a gall fod</p>

		yn gadarnhaol ar gyfer yr holl grwpiau oedran.
7.	A fydd y ddwy ysgol yn cyfrannu at y dyluniad?	Bydd, byddwn yn ymgynghori â'r ddwy ysgol – llywodraethwyr, staff a disgyblion. Bydd cyfleoedd i rieni a'r gymuned gyflwyno sylwadau ar y dyluniadau hefyd.
8.	A fydd yn ddyluniad 'oddi ar y silff'?	Na fydd, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried rhywbeth fel hyn yn y rownd nesaf ar gyfer cyllid ond ni fydd y dyluniad yn un 'oddi ar y silff' ar gyfer y prosiect hwn.
9.	Mae rhieni yn pryderu am y cam adeiladu.	Mae hyn yn ddealladwy a byddai'r Awdurdod Lleol, yr Esgobaeth a'r contractwr yn gweithio'n agos gyda'r ddwy ysgol i leihau'r aflonyddwch i addysg y disgyblion. Bydd ystod o gyfleoedd i ymgysylltu â disgyblion yn y ddwy ysgol yn ystod y cam adeiladu hefyd. Mewn prosiectau blaenorol, mae hyn wedi gweithio'n dda, gydag enghreifftiau fel disgyblion yn dylunio ardal awyr agored, sgysiau gan y contractwyr ynglŷn â gweithio yn y maes adeiladu, ymweld â ffatri i weld y fframwaith dur yn cael ei lunio a digwyddiadau merched yn y maes adeiladu.
10.	Beth fydd enw'r ysgol newydd?	Bydd yn rhaid i'r Corff Llywodraethu Dros Dro, ar ôl ei ffurfio, ddewis enw ar gyfer yr ysgol. Wrth uno ysgolion yn flaenorol mae'r disgyblion wedi cyfrannu syniadau ar gyfer enw, logo a gwisg ysgol. Dim ond un opsiwn i'w ystyried yw hyn, ond yn y pendraw cyfrifoldeb y Corff Llywodraethu Dros Dro fydd enwi'r ysgol.
11.	Mae'r niferoedd presennol yn Ysgol y Bendigaidd Edward Jones yn bryder.	Mae'n bwysig rheoli sut mae'r ysgol yn cael ei marchnata a sut y mae model 3-16 yn gweithio. Mae angen rhannu'r negeseuon cywir yn y Rhyl a'r ardal ehangach. Bydd gweithio gyda phenaethiaid ysgolion cynradd Catholig yng Nghonwy a Gwynedd hefyd yn bwysig. Mae angen dechrau'r gwaith hwn yn awr gan

		<p>y bydd pontio i'r ysgol newydd dros y blynyddoedd nesaf yn bwysig. Mae'n bosib y bydd disgyblion blwyddyn 4 Ysgol Mair ar hyn o bryd yn ddisgyblion blwyddyn 7 cyntaf yr ysgol newydd.</p> <p>Bydd angen gweithio i sicrhau bod y gymuned yn gwybod y gall disgyblion ddechrau ym Mlwyddyn 7 ar ôl mynychu ysgolion cynradd eraill yn yr ardal.</p>
12.	Rydym yn gweld yr elfen uwchradd yn cynyddu i gapasiti o 600 yn eithaf cyflym – mae angen adlewyrchu hyn wrth ddylunio'r cyfleusterau craidd.	Nodwyd y pwynt a gellir trafod hyn ymhellach yn ystod y cam dylunio.
13.	Beth fydd yn digwydd i'r cae chwarae oddi ar safle'r ysgol ar Ffordd Derwen?	Mae'n bwysig rheoli disgwyliadau yn y cam cynnar hwn. Ein nod yw gwneud y defnydd gorau posibl o'r gofod ar y safle a chadw'r ddarpariaeth oddi ar y safle. Byddwn yn ystyried gwella hygyrchedd hyn.

Cyfarfod staff ar y cyd- Staff Ysgol y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Mair
28 Chwefror 2017

Rhif	Sylw / Cwestiwn a godwyd	Ymateb
14.	A yw'n bosibl y bydd y cynnig yn cael ei atal h.y. nad yw'r Cabinet yn ei gefnogi?	<p>Oes mae modd y gallai'r cynnig gael ei atal. Fel Awdurdod Lleol mae gennym rwystrau i'w goresgyn, y broses statudol i'w chyflawni a chais am gyllid gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Fodd bynnag, fel Awdurdod Lleol mae gennym hanes blaenorol da o ddarparu ac adeiladu ysgolion newydd. Hefyd mae'r aelodau etholedig yn cefnogi'r cynnig hwn, yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli'r Rhyl. Yn amlwg mae'r etholiadau i ddod, ond credwn y bydd cefnogaeth ar gyfer y cynnig ac y bydd y Cabinet yn cefnogi'r prosiect wrth symud ymlaen.</p>
15.	A oes unrhyw beth y gallwn ni fel staff ei wneud i sicrhau bod y cynnig yn symud ymlaen?	<p>Mae'r Esgobaeth a'r Awdurdod Lleol yn credu bod hwn yn gynnis cyffrous a byddwn yn annog pobl i ymateb yn gadarnhaol i'r ymgynghoriad.</p> <p>Wrth gwrs, os oes gennych chi unrhyw bryderon am y cynnig amlinellwch y rhain er mwyn i'r Esgobaeth a'r Awdurdod Lleol</p>

		fynd i'r afael â nhw. Yn dilyn y broses hon byddwn yn cynhyrchu adroddiad ymgynghori i'r Cabinet ei ystyried- os ydynt yn gweld bod canran uchel o bobl sy'n cefnogi'r cynnig byddwn yn gobeithio y byddent yn ei gefnogi.
16.	Mae'r terfyn amser yn dynn – a oes modd ei newid o gwbl?	<p>Dim llawer – mae gennym derfynau amser i'w diwallu ar gyfer derbyn cyllid.</p> <p>Y cwbl y gallwn ei ddweud yw bod y terfyn amser yn dynn ond fel Awdurdod Lleol rydym yn cyfathrebu'n barhaus gyda Llywodraeth Cymru ac ni fyddem yn y sefyllfa hon pe baem yn credu nad oes modd ei gyflawni. Mae llawer o waith yn cael ei gyflawni y tu ôl i'r llen cyn i bobl weld y peiriannau ar y safle a dim ond ar yr adeg hynny y mae pobl yn credu ei fod wir am ddigwydd.</p>
17.	O ran yr adeilad newydd, beth fydd yn digwydd pe bai angen symud prif fynedfa'r ysgol? Nid yw mor hawdd â'r gwaith a wnaed yn Ysgol Uwchradd y Rhyl.	<p>Bydd y cynnig yn adeilad cwbl newydd. Bydd y broses gaffael yn dechrau'n fuan i benodi contractwr i ddechrau'r gwaith dylunio.</p> <p>Bydd yn rhaid i'r cwmni adeiladu reoli symudiad y disgyblion a gweithio gyda'r ddwy ysgol i sicrhau diogelwch pawb.</p> <p>Mae'n debyg y bydd rhyw fath o gyfnodau adeiladu – mae hyn wedi gweithio'n dda yn Ysgol Glan Clwyd lle bo'r estyniad newydd wedi'i gwblhau ac mae'r holl fyfyrwyr wedi symud i'r estyniad tra bo'r gwaith adnewyddu ar y gweill. Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda chontractwyr eisoes, ac nid ydynt yn rhagweld unrhyw broblemau gyda hyn. Bydd angen ei reoli'n effeithiol a gweithio'n agos gyda'r ysgolion presennol.</p>
18.	A oes modd i chi egluro sut y bydd budd-ddeiliaid yn cyfrannu at y broses, yn enwedig disgyblion a staff y ddwy ysgol.	<p>Mewn prosiectau trefniadaeth ysgolion blaenorol mae'r Awdurdod Lleol wedi ceisio ymgysylltu â disgyblion a staff cyn gynted â phosibl. Bydd cyngor ysgol y ddwy ysgol yn trafod y cynnig yr wythnos nesaf gyda'r fim.</p> <p>O ran symud ymlaen gyda'r dyluniad, unwaith eto bydd yr holl ddisgyblion a staff yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau a chyfrannu at y broses ddylunio wrth i'r</p>

		<p>prosiect ddatblygu. Unwaith y bydd y gwaith yn dechrau ar y safle efallai y bydd cyfleoedd i'r disgyblion, yn enwedig y rhai hŷn, i ymgysylltu â'r elfen adeiladu. Yn y gorffennol mae disgyblion wedi dylunio logos newydd a chynnig awgrymiadau ar gyfer enwau a gellir ystyried hyn gyda'r cynnig hwn.</p>
19.	<p>Mae'r cyflwyniad yn cyfeirio at rannu'r strwythurau rheoli fesul cam - a fyddai disgwyliad y gallwn addysgu disgyblion o flynyddoedd 5-8?</p>	<p>Fel Awdurdod Lleol nid oes gennym safbwynt ar hyn, dim ond rhai enghreifftiau ydynt o'r hyn y mae ysgolion 3-16/18 eraill yn eu defnyddio.</p> <p>Mae nifer o fodolau gwahanol sy'n gweithio, bydd angen ystyried y cwricwlwm newydd a phontio rhwng Blwyddyn 6 a 7. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu Dros Dro gytuno ar strwythur y staff.</p>
20.	<p>Ydym ni'n ystyried diswyddiadau?</p>	<p>Fel rhan o'r cynnig hwn nid ydym yn ystyried unrhyw ddiswyddiadau, fodd bynnag ni allaf addo dim - penderfyniad y Corff Llywodraethu Dros Dro fydd pa aelodau o staff sydd eu hangen a bydd hyn yn amlwg yn ystyried niferoedd disgyblion - mae'r Awdurdod Lleol a'r Esgobaeth yn gobeithio y bydd y cynnig hwn yn cynorthwyo â niferoedd disgyblion, yn enwedig ar gyfer yr elfen uwchradd.</p>
21.	<p>Mae'n deimlad braf derbyn cefnogaeth y Cyngor a'r Esgobaeth ar ôl 1 proses ymgynghori a ddaeth i ben heb symud ymlaen, beth fydd yn digwydd os nad yw'n cael ei gymeradwyo?</p>	<p>Os nad yw'r prosiect yn cael ei gymeradwyo byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau ac ni fyddai unrhyw warantiad o ddyraniad fel rhan o gyllid Band B Llywodraeth Cymru; ac felly byddai cynaliadwyedd y ddwy ysgol yn cael ei gwestiynu.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y bu'n broses hir ond hoffwn gadarnhau fod y Cyngor wedi ymrwymo'n llwyr i'r prosiect hwn. Mae sawl rheswm pam na weithredwyd y cynnig cyntaf ond nid ydym wedi rhoi'r gorau iddi, ac rydym yn credu mai dyma'r ffordd orau ymlaen.</p> <p>Mae'r 2 gorff llywodraethu yn cefnogi'r cynnig ac mae'r Esgob yn ymgysylltu â manylion y prosiect ac yn hynod gefnogol.</p>

22.	Beth am yr ysgolion bwydo eraill ar gyfer y Bendigaid Edward Jones- a fydd cyfle i ddisgyblion o ysgolion cynradd eraill ymuno â'r ysgol hon?	<p>Bydd modd i'r disgyblion o'r ysgolion hyn ymuno â'r ysgol ym Mlwyddyn 7. Mae'r cynnig yn ystyried pedwar dosbarth mynediad i'r elfen uwchradd felly yn ogystal â'r rhai o Flwyddyn 6 bydd isafswm o 40 lle i ddisgyblion ymuno o ysgolion eraill.</p> <p>Anfonwyd y dogfennau ymgynghori at bennaethiaid ysgolion cynradd Catholig yng Nghonwy a Gwynedd ac felly dylent fod yn ymwybodol o'r cynnig. Er y bydd yr ysgol wedi'i lleoli yn y Rhyl, mae'n deg dweud nad ysgol ar gyfer y Rhyl fydd hon yn unig, ond ar gyfer yr ardal ehangach.</p>
23.	Mae niferoedd disgyblion yn gostwng – a yw hyn yn peri risg ar y cam hwn?	<p>O safbwynt yr Awdurdod Lleol a'r Esgobaeth mae hon yn risg y dylem ei chadw mewn cof, mae'n rhaid i'r ysgolion eu hunain rannu neges gadarnhaol gyda'r gymuned.</p> <p>Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol wneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru ac mae'n rhaid iddynt weld y bydd yr ysgol yn llwyddiant ar ôl ei hadeiladu.</p> <p>Ar gyfer yr Awdurdod Lleol, mae'n amlwg ein bod angen ysgol uwchradd arall yn y dref, credwn fod niferoedd disgyblion digonol yn yr ardal i gynnal yr ysgol arfaethedig.</p>
24.	Roedd y wasg leol yn negyddol iawn yn ystod yr ymgynghoriadau blaenorol, beth allwn ni ei wneud i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto?	<p>Bydd yr Awdurdod Lleol a'r Esgobaeth yn gweithio gyda swyddogion y wasg i sicrhau bod y negeseuon a anfonir allan yn gadarnhaol a chywir.</p> <p>Mae gan y gymuned, llywodraethwyr a staff gyfrifoldeb i sicrhau y trafodir y cynnig mewn modd cadarnhaol a brwdfrydig. Gall y disgyblion eu hunain gynorthwyo i rannu'r neges gadarnhaol gyda'u cymunedau.</p>

Rhif	Sylw / Cwestiwn a godwyd	Ymateb
25.	Ydych chi'n gallu sicrhau y bydd yr adeilad newydd yn ecogyfeillgar, gan ystyried ffactorau megis ynni adnewyddadwy a chasglu dŵr gwastraff?	<p>Drwy gydol y broses ddylunio, bydd y penseiri yn ystyried effeithiau amgylcheddol yr adeilad.</p> <p>Bydd syniadau hefyd yn cael eu ceisio gan ddisgyblion o ran sut y gellir cynnwys ystyriaethau amgylcheddol fel rhan o'r prosiect. At hynny, fel rhan allweddol o'r meini prawf ar gyfer penodi contractwr ar gyfer y prosiect, bydd gofyniad o ran eu gallu i ddiwallu gofynion penodol mewn perthynas â chynaliadwyedd amgylcheddol.</p>
26.	A oes modd cadw rhywfaint o'r arian a ddyrannwyd ar gyfer y prosiect hwn o'r neilltu i gefnogi rhai o'n teuluoedd sydd â chostau oherwydd y prosiect, megis gwisgoedd ysgol newydd?	<p>Er bod y swm o arian a geisir ar gyfer y prosiect yn ymddangos fel swm enfawr, bydd angen y cyfan ar gyfer adeilad o'r maint hwn.</p> <p>Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol yn gwbl ymwybodol o effaith bosibl ar deuluoedd a bydd yn monitro'r rhain yn ofalus ac yn asesu pa gefnogaeth y gallwn ei ddarparu. Wrth uno ysgolion yn flaenorol mae'r Awdurdod Lleol wedi cynorthwyo'r ysgolion gyda'r wisg ysgol newydd.</p>
27.	Beth fydd yn digwydd i safle Ffordd Derwen ar ôl cwblhau'r adeilad newydd? A fydd yn cael ei ddefnyddio fel caeau chwarae?	Bydd y cynnig yn ystyried y dyluniad mwyaf cynaliadwy ar gyfer yr adeilad ynghyd â gwneud y defnydd gorau o'r safle. Ni wnaed unrhyw benderfyniadau terfynol hyd yn hyn ynglŷn â'r defnydd penodol ar gyfer ardaloedd gweddilliol, fodd bynnag bydd y dewisiadau a wneir yn unol â gofynion y cwricwlwm.
28.	Beth fydd enw'r ysgol newydd? A fydd enwau gwahanol ar gyfer yr elfennau cynradd ac uwchradd?	Bydd yr adeilad newydd yn un ysgol gydag un enw. Bydd y Corff Llywodraethu Dros Dro yn penderfynu ar enw, gwisg ysgol a logo.
29.	Pan anfonais fy mhlant i ysgol yng Nghymru roeddwn yn disgwyl y byddent yn gallu siarad Cymraeg. Rwy'n deall mai ysgol Saesneg fydd hon, ond pa lefel o Gymraeg fydd gan fy mhlant pan fyddant yn gadael?	<p>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad yn ddiweddar yn nodi eu bod eisiau cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050.</p> <p>Fodd bynnag, bydd angen i lywodraethwyr yr ysgol benderfynu pa</p>

		ran fydd gan y Gymraeg wrth ddatblygu'r cwricwlwm.
30.	Ai ysgol ar gyfer Catholigion yn unig fydd hon neu a oes croeso i gefndiroedd ffydd eraill? Sut y rheolir derbyniadau?	<p>Fe fydd hon yn ysgol Gatholig, fodd bynnag, bydd cynhwysiant ar gyfer darpariaeth ar gyfer teuluoedd sydd eisiau addysg Gatholig ar gyfer eu plant.</p> <p>Bydd y llywodraethwyr yn gyfrifol am sefydlu'r meini prawf ar gyfer derbyniadau a sut yr ymdrinnir â derbyniadau os bydd mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael.</p>
31.	A fydd lle yn yr ysgol newydd ar gyfer disgyblion o du allan i'r sir? Sut fyddai cludiant yn gweithio ar draws ffiniau sirol?	<p>Mae gan rieni hawl i gael mynediad i'r ysgol addas agosaf ac mae'r Esgobaeth yn awyddus i bwysleisio er bod yr ysgol wedi'i lleoli yn y Rhyl, nid ar gyfer preswylwyr y Rhyl fydd yr ysgol yn unig.</p> <p>O ran cludiant, mae gan bob awdurdod lleol eu polisiau cludiant eu hunain a fydd yn pennu pwy fydd yn derbyn cludiant.</p>
32.	A fydd yn rhaid i ddisgyblion presennol Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones wneud cais am le yn yr ysgol newydd?	Na, bydd yr holl ddisgyblion presennol yn y ddwy ysgol yn derbyn lle yn yr ysgol newydd yn awtomatig.
33.	A fydd cyfleusterau parcio gwell yn y safle newydd?	Rhoddir ystyriaeth sylweddol i barcio a'r effaith ar briffyrdd. Byddwn yn ymgynghori drwy gydol y broses, yn enwedig o ran y dyluniad terfynol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon allweddol gan fudd-ddeiliaid.
34.	Sut fydd diogelwch disgyblion yn cael ei sicrhau yn ystod y gwaith adeiladu?	<p>Mae rhywfaint o waith rhagarweiniol wedi'i gyflawni gyda chontractwyr i sefydlu ymarferoldeb rheoli diogelwch yn ystod y gwaith adeiladu.</p> <p>Mae gan Sir Ddinbych brofiad sylweddol o ddarparu prosiectau fel y rhain yn ddiogel a llwyddiannus e.e. Ysgol Glan Clwyd.</p> <p>Oherwydd y capasiti ychwanegol yn y Bendigaid Edward Jones, gallai hyn gynnwys cyfleoedd ychwanegol ar gyfer y disgyblion yn ystod y gwaith.</p>

Rhif	Sylw / Cwestiwn a godwyd	Ymateb
35.	Mae angen ystyried ynni adnewyddadwy fel rhan o'r dyluniad a sut y gellir defnyddio hyn i gynhyrchu incwm posibl ar gyfer yr ysgol.	Bydd hyn yn cael ei ystyried yn y cam dylunio, pan fyddwn yn ymgynghori ag ysgolion, disgyblion, rhieni, preswylwyr ac yn gwahodd sylwadau a syniadau. Mae'n rhaid i'r ysgol fod yn addas i bwrpas ac rydym yn ceisio derbyn graddfa ragorol BREAM ar gyfer unrhyw adeilad yr ydym yn ei adeiladu. Ar ddiwedd y dydd rydym yn adeiladu ysgol ac rydym angen rheoli disgwyliadau o amgylch hynny ac mae'n rhaid i ni fod yn gall wrth i'r costau adeiladu gynyddu.
36.	A fydd y sefyllfa o ran parcio yn cael ei ystyried ac a fydd y fynedfa a'r pwyntiau gollwng yn cael eu cynllunio'n ofalus? Mae'n sefyllfa unigryw gan fod y ddwy ysgol yn rhedeg ochr yn ochr â ffyrdd ar wahân.	Yn ystod y broses ddylunio bydd adran Priffyrdd CSDd yn cyfranogi i sicrhau bod y cynlluniau yn ddiogel. Rhoddir ystyriaeth o ran strwythur diwrnod yr ysgol a sut y caiff ei gynllunio ynghyd â'r effaith ar strydoedd cyfagos. Gobeithir y bydd yr ysgol newydd yn gwella sefyllfa'r briffordd, nid ei gwneud yn waeth.
37.	Gyda'r cwricwlwm newydd sy'n dod allan yn fuan – gobeithiaf nad yw'r ysgol yn mynd i fod yn arbrawf?	Ni fydd hyn yn wir o gwbl. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwmo i wneud y gorau o'r cwricwlwm newydd ac rydym eisiau sicrhau bod yr ysgol newydd yn amgylchedd gofalgar.
38.	A fyddwch chi'n ystyried paneli solar? Mae math newydd sy'n cael ei ddatblygu sy'n edrych fel teils sy'n gwefru batris y gellir eu defnyddio ar ôl hynny. A oes modd i'r ysgol ei brofi? Hefyd mae teils llawr sy'n harneisio ynni y gellir ei werthu ymlaen. Gellir defnyddio dŵr glaw ar gyfer sestonau hefyd. Mae pob ceiniog a chaiff ei harbed yn geiniog ychwanegol ar gyfer addysg fy mhlant.	Mae'r holl syniadau hyn yn bwysig iawn ac mae'r holl bwyntiau wedi'u nodi.
39.	Sut fydd yr ysgol newydd yn effeithio ar gyllideb AAA sydd eisoes yn dynn?	Mae'r arian hwn wedi'i ddirprwyo i'r ysgolion eu hunain ei reoli yn awr. Mae llawer o waith i'w wneud o ran nodi'r ddarpariaeth gywir ar gyfer plentyn yn gynnwys. Mae'r Awdurdod Lleol yn

		gwerthfawrogi bod yr ysgolion dan bwysau gan rai rhieni, fodd bynnag mae'n bwysig archwilio'r holl opsiynau o ran cefnogaeth ar gyfer AAA o waith grŵp i waith un i un penodedig.
--	--	---

ATODIAD C

Canfyddiadau Cynghorau Ysgol

Adroddiad ar ôl ymgynghori â Chynghorau Ysgol yn Ysgol Mair, Ysgol y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Emmanuel

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn gofyn bod Cyngor Sir Ddinbych ac Esgobaeth Wrecsam (y cynigwyr) yn gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion unrhyw ysgol sy'n cael ei heffeithio gan gynigion trefniadaeth ysgolion.
- 1.2 Mae'r cod yn dweud bod yn rhaid i ymgynghori gynnwys ymgynghori â chynghorau ysgol ysgolion sy'n cael eu heffeithio a dylai hefyd gynnwys ymgynghori â disgyblion unigol, lle bo hyn yn briodol ac yn ymarferol.
- 1.3 Mae'r gofyniad wedi ei osod mewn perthynas ag Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n datgan fod gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael eu barn a'u safbwyntiau wedi eu clywed ac i gael gwrandawriad mewn penderfyniadau a wneir gan oedolion sy'n effeithio ar eu bywydau.
- 1.4 Fel ysgolion bwydo posibl cynigwyd sesiwn i gynghorau ysgol yr ysgolion canlynol i drafod y cynnig: Ysgol Llywelyn, Ysgol Emmanuel, Ysgol Christchurch ac Ysgol Bryn Hedydd. Derbyniodd Ysgol Emmanuel y cynnig ac mae canlyniadau'r sesiwn wedi'u nodi isod.

2.0 Dull ymgynghori

- 2.1 Cyhoeddodd Cyngor Sir Ddinbych ac Esgobaeth Wrecsam fersiwn ar wahân i Blant a fersiwn ar gyfer Pobl Ifanc o'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol. Darparwyd copïau o'r ddogfen ar gyfer plant i blant Ysgol Mair, Ysgol Llywelyn, Ysgol Emmanuel, Ysgol Christchurch ac Ysgol Bryn Hedydd. Darparwyd copïau o fersiwn Pobl Ifanc o'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol i'r Bendigaid Edward Jones.
- 2.2 Trefnwyd cyfarfodydd gan Gefnogwr Llais y Dysgwr Cyngor Sir Ddinbych gyda'r cynghorau ysgol. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Chyngor Ysgol y Bendigaid Edward Jones ar 7 Mawrth 2017 am 10am ac fe gynhaliwyd cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Mair ar 7 Mawrth 2017 am 1pm. Cynhaliwyd y cyfarfod gyda chyngor Ysgol Emmanuel ar 13 Mawrth 2017.

3.0 Ymateb i'r Ymgynghoriad

- 3.1 Roedd y sesiynau yn ceisio bod mor rhyngweithiol â phosibl, gyda phob cyfarfod yn canolbwyntio ar elfennau tebyg:
 - **Sut maent yn teimlo am y cynnig?** - Darparwyd cyfres o gardiau 'Emoji' i bob aelod. Gofynnwyd i aelodau cyngor yr ysgol beth oedd eu teimladau am y cynnig ac i gyflwyno'r 'emoji' oedd yn crynhoi eu

teimladau, pe bai'r aelodau eisiau trafod pam eu bod wedi dewis un penodol roedd hyn yn cael ei drafod o flaen y grŵp cyfan.

- **Beth sy'n bwysig iddynt am yr ysgol?** - Gyda chynghorau'r ysgolion cynradd roedd pob aelod yn derbyn darlun o ddyn sinsir a gofynnwyd iddynt ysgrifennu'r hyn sy'n bwysig iddynt am yr ysgol y tu mewn i'r dyn sinsir. Gwnaed y sesiwn gyda'r Bendigaid Edward Jones ychydig yn wahanol gan eu bod wedi derbyn nodiadau 'post-it' a gofynnwyd iddynt eu gosod ar ddyn sinsir mawr ac yna trafodwyd y rhain fel grŵp.
- **Unrhyw gwestiynau / pryderon?** - Derbyniodd pob disgybl ddarn bach o bapur i ysgrifennu unrhyw ofnau, pryderon neu gwestiynau oedd ganddynt, eu plygu a'u taflu i 'bwl pryderon' yn ddi-enw. Cyn diwedd y sesiwn aeth yr hwyluswyr i'r afael ag unrhyw bryderon/cwestiynau oedd yn deillio o'r ymarfer hwn.
- **Beth hoffech chi ei weld yn yr ysgol newydd / gobeithion ar gyfer yr ysgol newydd?** – Cafwyd trafodaeth agored gydag aelodau'r cynghorau ysgolion cynradd ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei weld yn yr ysgol newydd ac ysgrifennodd yr hwylusydd y syniadau ar bapur siart droi. Gyda sesiwn y Bendigaid Edward Jones rhannwyd y cyfranogwyr yn grwpiau a gofyn iddynt fapio sut y maent yn gweld eu hysgol yn awr a beth y gellir ei wneud yn yr ysgol newydd i wella pethau.

4.0 Ymateb gan Gyngor Ysgol y Bendigaid Edward Jones

4.1 Sut ydych chi'n teimlo am wneud Ysgol Mair ac Ysgol Gatholig y Bendigaid Edward Jones yn un ysgol?

- Hapus
- Gobeithiol
- Wedi fy synnu
- Dryslyd – Pam ydych chi'n uno'r 2 ysgol?
- Wedi cyffroi
- Pryderus – bod disgyblion bach yn cymysgu gyda'r rhai hŷn.
- Trist – bydd yr holl atgofion yn mynd.
- Blin – gan na fyddaf yma pan gaiff ei adeiladu.
- Nerfus- a fydd yn gweithio?
- Does gen i ddim ots
- Gofidus

4.2 Beth sy'n bwysig i chi am yr ysgol?

- | | |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"> • Bwyd (10 disgybl) • WIFI (8 disgybl) • Gwell cysylltiad rhyngrwyd (5 disgybl) • Ansawdd yr addysg (5 disgybl) • Ffrindiau (4 disgybl) • Gwell offer/cyfleusterau chwaraeon (4 disgybl) • Cyfleusterau – ffreutur a thoiledau (3 disgybl) | <ul style="list-style-type: none"> • Gwahanol neuaddau fel bod arholiadau a chwaraeon ar wahân • Dosbarth cofrestru – bore yn unig • Trin aflonyddwch yn ystod y dosbarth • Mwy o weithgareddau actif yn lle pin a phapur • Cael dosbarth cofrestru yn y bore |
|--|--|

<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o weithgareddau ar ôl ysgol (2 ddisgybl) • Campfa ffitrwydd ac iechyd (2 ddisgybl) • Gofodau cymdeithasol dan do ac yn yr awyr agored (2 ddisgybl) • Ffreutur a bwyd gwell (2 ddisgybl) • Bwyd rhatach (2 ddisgybl) • Athrawon • Llai o oriau yn yr ysgol • Disgyblaeth – 2 gyfle ac yna mae'n rhaid i chi fynd • Cloeon newydd ar ddrysau toiled • Gwisg ysgol newydd a gwell • Cosbi a buddiannau • Pwysigrwydd bod rhywun i siarad â nhw pan fo'r angen • Amserlen sy'n fwy trefnus • Offer da • Amgylchedd gofalgar ar gyfer pawb • Gwrth-fwllo • Mwy o lyfrau • Sut yr ymdrinnir ag ymddygiad gwael • Llai o sbwriel, glanach • Pas amser cinio • Kebab/Pitsa ar ddydd Gwener • Gwobrau gwell • Cyfleusterau pêl-droed • Maes chwarae wedi'i ddatblygu – mwy o feinciau ac ati • Mwy o wahanol fathau o fwyd • Technoleg gwell / o'r radd flaenaf • Ffreutur awyr agored • Mwy o amrywiaeth o setiau mewn gwahanol bynciau 	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o dimau chwaraeon ysgol • Liffitiau • Amgylchedd diogel • Offer Cerddoriaeth • Cae Pêl-droed 3G • Lolfa • Ystafell X-box / Playstation • Peiriannau Gwerthu • Dysgu pobl sut i gael cymorth os ydynt ei angen • Ategolion amser egwyl a chinio • Gallu canolbwyntio yn y dosbarth • Cwrs Awyr Agored • Amgylchedd da • Cyfleusterau da. • Ystafelloedd cyffredin • Rhywle i fynd pan fo'n bwrw glaw / oer • Ymddygiad • Llyfrgell fwy • Disgwyliadau uwch i gael eich derbyn • Mwy o weithgareddau yn yr ysgol • Gwrando ar syniadau pobl eraill • Rhoi adborth • Mwy o bynciau • Capel
---	--

4.3 Gofidiau:

<ul style="list-style-type: none"> • Bwlio (5 disgybl) • Amser pan fydd yr ysgol yn dechrau a gorffen (2 ddisgybl) • Cymorth athrawon ar gyfer pobl mewn angen • Gallai cael blynyddoedd cymysg wneud ymddygiad yn waeth • Myfyrwyr / athrawon heb feddwl agored • Dim staff • Efallai na fydd yr athrawon yn gallu dod i adnabod pob myfyriwr oherwydd bod cymaint ohonynt • Dim rhyngweithio allanol gydag ysgolion eraill. • Ein haddysg yn cael ei ddifetha oherwydd myfyrwyr sy'n ymddwyn yn wael - sut y byddwn yn delio â hynny? • Os yw'r ddwy ysgol yn cael eu dymchwel dylid defnyddio'r gofod yn gall.

- Gall gynyddu'r achosion o fwlio
- Hiliaeth
- Mwy o fwlio – problemau o ran rheoli myfyrwyr y tu allan yn ystod amser egwyl
- Gall ymddygiad waethygu

4.4 Cwestiynau ac ymatebion a ddarparwyd yn y sesiwn:

Cwestiwn	Ymateb
Pe bai'n rhaid chi ddewis pwy yw eich prif flaenoriaeth? Blwyddyn 11?	Mae pob grŵp blwyddyn yn bwysig ac os cytunir ar gynllun, bydd yr ysgol yn cael ei dylunio i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion. Bydd yn bwysig sicrhau y cedwir yr aflonyddwch i ddysgu'r myfyrwyr i'r isafswm posibl yn ystod y gwaith adeiladu.
Pryd fydd yr ysgol yn gorffen? Pa mor hir fydd diwrnod yr ysgol?	Penderfyniad y Corff Llywodraethu Dros Dro yw pennu strwythur diwrnod yr ysgol.
Sut fydddech chi'n datrys bwlio yn y blynyddoedd iau?	Byddai'r Corff Llywodraethu Dros Dro yn llunio polisi Gwrth-fwlio a fyddai'n nodi sut y byddai'r ysgol yn delio â bwlio. Bydd gan ddyluniad yr ysgol newydd ardaloedd dynodedig ar gyfer disgyblion uwchradd a chynradd. Bydd y grwpiau blwyddyn yn cael eu gwahanu a bydd amserlen diwrnod yr ysgol yn wahanol fel na fyddai plant oedran cynradd ar yr iard ar yr un pryd â'r disgyblion uwchradd. Felly er y byddwch yn yr un ysgol, bydd y cyswllt rhwng y disgyblion cynradd ac uwchradd yn ystod diwrnod yr ysgol yn isel.
Pam ein bod yn uno gyda'n gilydd?	Mae'r Awdurdod Lleol ac Esgobaeth Wrecsam yn credu mai dyma'r ffordd orau ymlaen i sicrhau fod gan ddisgyblion y cyfleusterau cywir i ddysgu ynddynt. Mae'r ddwy ysgol angen gwario cryn dipyn o arian ar yr adeiladau er mwyn eu hatgyweirio. Mae'r cynnig ar gyfer un ysgol yn sicrhau y bydd yr ysgol yn gryfach ac yn fwy effeithlon.
Beth fydd cost yr ysgol newydd?	Bydd yr ysgol newydd yn costio oddeutu £23 miliwn.
Pwy fydd y pennaeth?	Penderfyniad y Corff Llywodraethu Dros Dro fydd penodi pennaeth newydd cyn agor yr ysgol.

Pryderon fod disgyblion cynradd ar yr un safle.	Bydd y grwpiau blwyddyn yn cael eu gwahanu a bydd amserlen diwrnod yr ysgol yn wahanol fel na fyddai plant oedran cynradd ar yr iard ar yr un pryd â'r disgyblion uwchradd.
A oes modd cael chweched dosbarth?	Ni fydd chweched dosbarth yn cael ei gynnwys. Mae gan ddisgyblion presennol Ysgol y Bendigaid Edward Jones sydd eisiau parhau â'u haddysg yr opsiwn o ymuno â Phartneriaeth Chweched y Rhyl a Phrestatyn ac ni fydd hyn yn newid.

4.5 Beth hoffech chi ei weld yn yr ysgol newydd:

<ul style="list-style-type: none"> • Liffiau • Capel mwy – ar gyfer gwasanaethau • Llyfrgell fwy • Wi-fi am ddim • Ystafell / neuadd benodol ar gyfer arholiadau • Capel ar gyfer plant Cynradd/ Capel ar gyfer disgyblion Uwchradd • Cyfleusterau toiled yn bwysig iawn • Paneli solar • Ecogyfeillgar • Mwy o effeithlonrwydd ynni • Ardaloedd cysgodol • Ardaloedd cymdeithasol – dan do ac yn yr awyr agored • Ystafelloedd cyffredin • Gofod amser allan • Ystafell Cymorth Cyntaf • KFC • Safle beiciau • Camerâu a diogelwch • Loceri • Peiriannau Gwerthu

5.0 Ymateb gan Gyngor yr Ysgol yn Ysgol Mair

5.1 Sut ydych chi'n teimlo am wneud Ysgol Mair ac Ysgol Gatholig y Bendigaid Edward Jones yn un ysgol?

<ul style="list-style-type: none"> • Cyffrous / hapus • Dim pryderon. • Trist – byddaf yn gweld eisiau'r hen ysgol • Dryslyd – pam? • Wedi cyffroi i gael ysgol newydd • Wedi synnu ei fod yn digwydd mor gyflym • Hapus- cyfarfod ffrindiau newydd
--

- Ofn mynd i ysgol newydd
- Dryslyd – dim rhybudd
- Llawn cyffro ar gyfer ysgol fawr a ffrindiau newydd
- Blin- rwy'n hoffi'r ysgol hon
- Poeni y bydd yr adeilad yn rhy fawr
- Trist – colli'r atgofion yn yr hen ysgol

5.2 Beth sy'n bwysig i chi am yr ysgol?

<ul style="list-style-type: none"> • Athrawon (9 disgybl) • Bod gyda fy ffrindiau / gwneud ffrindiau (9 disgybl) • Bod ar gyngor yr ysgol (8 disgybl) • Dysgu / derbyn addysg da (8 disgybl) • Bwyta'n iach (7 disgybl) • Nofio(5 disgybl) • Chwaraeon / cadw'n heini (5 disgybl) • Digwyddiadau diwylliannol (5 disgybl) • Diwrnod y Llyfr (4 disgybl) • Gweithgareddau allgyrsiol (4 disgybl) • Toiledau glân (3 disgybl) • Celf (3 disgybl) • Cerddoriaeth (3 disgybl) • Amgylchedd (2 ddisgybl) • Cefnogaeth (2 ddisgybl) • Gofalu am ein gilydd • Maes chwarae mawr 	<ul style="list-style-type: none"> • Offer da • Rhywle tawel i dawelu a siarad • Digwyddiadau codi arian • leithoedd yn yr ysgol
--	--

5.3 Gofidiau

- Bwlio gan ddisgyblion oedran uwchradd (4 disgybl)
- Gwneud ffrindiau newydd (2 ddisgybl)
- Oedi cyn adeiladu'r ysgol
- Mynd ar goll – bydd yr ysgol newydd yn llawer mwy
- Efallai na fydd unrhyw glybiau

5.4 Unrhyw gwestiynau:

Cwestiwn	Ymateb
A fydd yna 2 bennaeth?	Na, un ysgol fydd hi ac felly bydd un pennaeth.
Pe bawn yn cael fy mwlio, oes rhywun i mi siarad â nhw?	Oes, byddai gan yr ysgol weithdrefn gwrth-fwlio ar waith a fyddai'n egluro beth i'w wneud os ydych yn cael eich bwlio.

Lle fydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu?	Ar safleoedd presennol Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones.
A fydd disgyblion uwchradd a chynradd yn cael eu gwahanu?	Bydd, fe fydd y disgyblion ar wahân.
A oes yn rhaid aros yn yr ysgol hon pan fyddwch yn mynd i ysgol uwchradd.	Bydd yr ysgol newydd yn ysgol 3-16, felly byddai gan ddisgyblion le yn yr ysgol ar gyfer addysg gynradd ac uwchradd. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ddewis rhieni, felly os ydych eisiau symud i ysgol uwchradd arall ym mlwyddyn 6 mae modd gwneud hynny.
Ble fydd y plant bach yn chwarae?	Bydd yr ysgol wedi'i dylunio mewn modd fel bod yr ardaloedd chwarae a'r adeilad ei hunan wedi'i rannu'n ardaloedd er mwyn sicrhau bod y plant iau a'r disgyblion hŷn ar wahân.
Beth fydd yn digwydd i'r adeilad presennol?	Ar ôl adeiladu'r ysgol newydd, bydd adeiladau'r ysgolion presennol yn cael eu dymchwel i wneud lle ar gyfer ardaloedd allanol yr ysgol newydd.
Pam na allwch chi dynnu'r ffens rhwng y ddwy ysgol yn unig?	Ni fyddai hyn yn gwella'r cyfleusterau yn yr ysgolion sydd angen eu gwella.
A fydd yr ysgol yn cau?	Bydd. Fe fydd Ysgol Mair yn cau ar 31 Awst 2019 a bydd yr ysgol 3-16 newydd yn agor y diwrnod canlynol ar 1 Medi 2019.
A fydd newidiadau mawr?	Os caiff y cynnig ei gymeradwyo bydd y newidiadau yn rhai eithaf mawr. Bydd gan y disgyblion yma adeilad a maes chwarae newydd, ond byddwch gyda'ch ffrindiau o hyd.

5.5 Gobeithion ar gyfer yr ysgol newydd:

<ul style="list-style-type: none"> • Offer newydd ac arbenigol e.e. chwaraeon, cyfrifiaduron, maes chwarae (4 disgybl) • Gwell ardaloedd awyr agored e.e. ysgol y goedwig, cae pêl-droed mwy (2 ddisgybl) • Ardal chwarae antur : sleidiau, fframiau dringo a marciau llinell • Gofodau amgen i'w defnyddio pan fo'r gwair yn wlyb e.e. cae pob tywydd • Stiwdio dawn • Ffrindiau yn aros yn yr un dosbarth • Ystafell gerdd • Ffreutur sy'n fwy
--

- Toiledau gwell
- Gwella'r llwybrau i'r ysgol
- Hebryngwyr croesi ffordd

6.0 Ymateb gan Gyngor Ysgol Emmanuel

6.1 Sut ydych chi'n teimlo am wneud Ysgol Mair ac Ysgol Gatholig y Bendigaid Edward Jones yn un ysgol?

- Hapus (8 disgybl)
- Ddim yn poeni - nid yw'n effeithio arnaf i (8 disgybl)
- Balch
- Pryderu am ei faint
- Blin - pam na all aros yr un fath
- Wedi cyffroi
- Hapus
- Trist a dryslyd – ddim yn gwybod lle fyddwch yn mynd / gweld eisiau'r hen ysgolion
- Wedi cyffroi – mwy ac yn well
- Gobeithio y byddant yn ei hadeiladu
- Hapus- gwisg newydd

6.2 Beth sy'n bwysig i chi am yr ysgol?

- | | |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none"> • Dysgu / derbyn addysg da (15 disgybl) • Bod gyda fy ffrindiau / gwneud ffrindiau (13 disgybl) • TGCh (10 disgybl) • Bwya'n iach / ffordd o fyw (8 disgybl) • Amser chwarae - Chwaraeon / cadw'n heini (7 disgybl) • Athrawon (6 disgybl) • Llwyddiant (6 disgybl) • Cyngor ysgol (5 disgybl) • Amser mynd adref (5 disgybl) • Lleisio fy marn (4 disgybl) • Gwaith fim (4 disgybl) • Bod yn ddiogel (3 disgybl) • Ysgol daclus (3 disgybl) • Clwb brecwast / clwb ar ôl ysgol (2 ddisgybl) • Offer (2 ddisgybl) • Darllen (2 ddisgybl) • Cefnogaeth (2 ddisgybl) | <ul style="list-style-type: none"> • Mynd ar deithiau • Cymraeg • Parch • Gofalu am ein gilydd • Toiledau glân • Amgylchedd • Celf • Cerddoriaeth • Gwaith cartref |
|---|---|

6.3 Gofidiau:

- Bwlio / ymladd (3 disgybl)
- Gobeithio y caiff yr adeilad ei adeiladu'n dda

- Pryderu pe bai pethau'n mynd o'i le

6.4 Unrhyw gwestiynau

Cwestiwn	Ymateb
A fydd gan yr ysgol newydd wisg ysgol newydd?	Mae'n debyg, er bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud gan y Corff Llywodraeth Dros Dro.
A fyddant yn derbyn yr un gwersi?	Bydd disgyblion â mynediad o hyd i'r gwersi maent yn ei gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai'r ysgol newydd yn darparu cyfleoedd i wella'r nifer o bynciau sydd ar gael, yn y rhan uwchradd o'r ysgol.
A fyddant yn newid logo/bathodyn yr ysgol?	Byddan, gan y bydd gan yr ysgol enw newydd bydd angen logo, bathodyn a gwisg newydd. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud gan y Corff Llywodraethu Dros Dro.
A fydd ganddynt yr un athrawon?	Bydd y strwythur staffio yn cael ei benderfynu gan Gorff Llywodraethu Dros Dro'r ysgol newydd. Fel Awdurdod Lleol, byddem yn cynghori bod yr holl staff yn y ddwy ysgol ar hyn o bryd yn cael eu 'clustnodi' ar gyfer swyddi yn yr ysgol newydd.
Os ydynt yn adeiladu'r ysgol, a fydd y plant o Ysgol Mair yn y gwersi gyda'r plant ysgol uwchradd?	Na, ni fydd y gwersi gyda'i gilydd, bydd gan ddisgyblion oedran cynradd wersi fel y maent yn eu cael yn awr yn eu grwpiau blwyddyn / dosbarthiadau perthnasol a bydd y disgyblion uwchradd yn gwneud yr un fath.

6.5 Gobeithion ar gyfer yr ysgol newydd

<ul style="list-style-type: none"> • Bwyd iach (2 ddisgybl) • Pwll nofio • Toiledau glân • Neuadd fwyta fawr • Siop/troli byrbrydau iach • Bwyd blasus amser cinio • Offer Newydd • Dosbarthiadau mawr • TGCh 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithgareddau allgyrsiol • Ardaloedd eu hunain (cynradd ac uwchradd) • Lleoedd i gymdeithasu • Ystafell ddarllen • Ystafell dawel • Cyngor yr Ysgol • Llyfrgell • Dim athrawon uchel / blin
--	---

7. Ffurflenni Ymateb Plant:

- 7.1 Derbyniwyd 73 ffurflen ymateb gan blant blwyddyn 4/5 Ysgol Mair . Amlinellir crynodeb o'r ymatebion yn y tabl isod;

Sut ydych chi'n teimlo am wneud Ysgol Mair ac Ysgol Gatholig y Bendigaid Edward Jones yn un ysgol?

- Dim barn / ddim yn fy mhoeni – mynd i ysgol uwchradd wahanol – (10 disgybl)
- Wedi cyffroi (8 disgybl)
- Hapus (8 disgybl)
- Iawn (7 disgybl)
- Nerfus a llawn cyffro (5 disgybl)
- Ofn mynd ar goll (3 disgybl)
- Iawn (3 disgybl)
- Syniad da (3 disgybl)
- Gwych (3 disgybl)
- Trist a hapus (2 ddisgybl)
- Pryderus a hapus (2 ddisgybl)
- Nerfus (2 ddisgybl)
- Ofnus (2 ddisgybl)
- Ei hoffi gan y byddaf gyda fy mrawd/chwaer (2 ddisgybl)
- Ddim yn siŵr
- Trist a chyffrous
- Da
- Trist
- Da – os ydw i'n cael aros gyda fy ffrindiau
- Cyffrous, hapus a thrist
- Nerfus, pryderus, cyffrous a hapus
- Ofnus, nerfus a hapus
- Da ond ofn mynd ar goll
- Ofnus a hapus
- Trist a phryderus
- Cyffrous ond ofn mynd ar goll
- Ofnus a thrist
- Anhygoel
- Pryderu am fwlio
- Cyffrous a hapus

Sut wyt ti'n teimlo am gael ysgol newydd?

- Dim barn / ddim yn fy mhoeni – mynd i ysgol uwchradd wahanol – (13 disgybl)
- Hapus (12 disgybl)
- Wedi cyffroi (10 disgybl)
- Trist a hapus (6 disgybl)
- Ofnus (4 disgybl)
- Nerfus (3 disgybl)
- Gwych (2 ddisgybl)
- Hapus a llawn cyffro (2 ddisgybl)
- Da (2 ddisgybl)
- Hoffwn weld sut beth fydd yr ysgol newydd (2 ddisgybl)
- Pryderus (2 ddisgybl)
- Trist – byddaf yn gweld eisiau'r ysgol hon

- Hapus, cyffrous ac ychydig yn drist
- Byddaf yn gweld eisiau Ysgol Mair ond bydd yr ysgol newydd yn hyfryd
- Hoffwn gael yr un pennaeth
- lawn
- Cyffrous a balch
- Syniad cŵl
- Bydd yn well gan y byddaf gyda fy mrawd/chwaer
- Bydd yn well gan y bydd yn ysgol gymysg
- Pryderu am fwlio
- Hapus a nerfus
- Hapus a balch
- Ofnus a thrist
- Hapus ar gyfer y disgyblion eraill
- Ofnus – rhegi ac ymladd

Sut wyt ti'n teimlo am rannu ysgol â disgyblion o oedran uwchradd?

- Ofnus (11 disgybl)
- Pryderus – bwlio / ysmysgu / rhegi (8 disgybl)
- lawn (7 disgybl)
- Wedi cyffroi (5 disgybl)
- Hapus (4 disgybl)
- Ffrindiau newydd (4 disgybl)
- Pryderus (4 disgybl)
- Dim ateb (3 disgybl)
- Da (2 ddisgybl)
- Nerfus (2 ddisgybl)
- Anhygoel
- Ddim yn gwybod
- Da, gallant ein helpu
- Grêt
- lawn ond ofn rhannu'r maes chwarae
- Nerfus - efallai y byddant yn bwlio
- lawn ond pryderu am ysmysgu a rhegi
- Trist a phryderus
- Ddim yn hoffi'r plant iau
- Yn ofnus
- Nerfus a thrist
- Blin ac ofnus
- Wedi gwylltio
- Ofnus ac iawn
- Drwg
- Ddim yn fy mhoeni
- Does gen i ddim ots
- Ofnus – bwlio / ysmysgu / rhegi
- lawn
- Trist – ysmysgu a rhegi

Oes unrhyw beth arall yr hoffet ti ei weld yn digwydd yn hytrach na'n cynlluniau ni?

- Na (12 disgybl)

- Aros yr un fath (10 disgybl)
- Pwll nofio (8 disgybl)
- Ateb gwag / aneglur (7 disgybl)
- Cae pêl-droed mwy (4 disgybl)
- Cae pêl-droed (4 disgybl)
- Maes chwarae mwy (3 disgybl)
- Ysgolion newydd ond cadw'r ysgolion cynradd ac uwchradd ar wahân (3 disgybl)
- Ystafell gemau (2 ddisgybl)
- Yr un pennaeth (2 ddisgybl)
- Ystafelloedd dosbarth mwy (2 ddisgybl)
- Neuadd fwyta sy'n fwy (2 ddisgybl)
- Ystafell ddosbarth newydd (2 ddisgybl)
- Ysgol newydd (2 ddisgybl)
- Uno'r ysgolion gyda'i gilydd yn hytrach nag ysgol newydd (2 ddisgybl)
- Dim barn / ddim yn fy mhoeni – mynd i ysgol uwchradd wahanol – (2 ddisgybl)
- KFC (2 ddisgybl)
- Tabledi yn yr adeilad newydd
- Ffrâm ddringo
- Ardal archwilio
- Ystafell ddisgo
- Ystafell laser
- Ddim yn gwybod
- Byrddau Gwyn newydd
- Mwy o lyfrau
- Tennis Bwrdd
- Campfa
- Toiledau newydd
- Peidio newid yr enw
- Theatr
- Canolfan ffilmiau
- Gwario arian ar Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones ar wahân
- Ysgolion yn aros yr un fath, rhoi'r arian i elusen
- Cawell pêl-droed gydag astro
- Adeiladu ysgol newydd ond un ar wahân i'r Bendigaid Edward Jones
- Parc antur newydd gyda sleidiau
- Atal bwlio
- Subway a Costa
- Llawer o goed

8. Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol â Disgyblion

Mae crynodeb y sesiynau ymgynghori â disgyblion hefyd wedi cael eu cynhyrchu mewn fformat sy'n hygyrch i blant a phobl ifanc. **Cynnwys dolen**

Atodiad D

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd drwy lythyr ac e-bost

Crynodeb o'r Sylwadau	Ymateb y Cynigwyr
<p>Croesawu'r cynnig, llawer o ansicrwydd o ran dyfodol darpariaeth Gatholig leol ar hyn o bryd, ac mae'n bwysig y caiff hyn ei ddatrys.</p> <p>Mae gan Ysgol Uwchradd y Rhyl gyfleusterau addas i bwrpas yn awr, ni ellir dweud yr un fath am Ysgol Uwchradd y Bendigaid Edward Jones.</p> <p>Dyfodol cadarnhaol ar gyfer y Rhyl a'r ardal ehangach yn dibynnu ar ansawdd a'r dewis o ran addysg. Byddai'r cynigion ar gyfer y datblygiad hwn yn arloesol ac yn darparu'r potensial i godi safonau a disgwyladau. Byddant hefyd yn cynorthwyo i adfywio'r dref yn ei chyfanrwydd a darparu cyfleusterau y gellir eu darparu ar gyfer defnydd cymunedol cyffredinol.</p>	<p>Pwyntiau wedi'u nodi.</p>
<p>Syniad gwych, mae dewis ysgol yn bwysig ar gyfer rhieni a phlant ac mae cael yr opsiwn hwn yn rhagorol.</p> <p>Ni all yr holl blant ymdopi â swm sylweddol o ddisgyblion.</p>	<p>Pwyntiau wedi'u nodi.</p>
<p>Cefnogi'r cynnig ar gyfer ysgol Gatholig newydd y Rhyl ar gyfer ein plant. Cam cadarnhaol gan Gyngor Sir Ddinbych.</p>	<p>Pwyntiau wedi'u nodi.</p>
<p>Os yw ein swyddi yn cael eu clustnodi a fydd yn rhaid i ni gyd ailymgeisio am ein swyddi?</p>	<p>Ar y pwynt hwn ni allwn ateb y cwestiwn hwn, bydd gofyn i'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu newydd lunio strwythur staffio ar gyfer yr ysgol, ar ôl cwblhau hyn byddant yn penderfynu ar y broses o baru /penodi pobl i'r swyddi newydd. Mae posibilrwydd efallai y bydd angen i bobl ymgeisio neu mae posibilrwydd y bydd staff yn cael eu paru â'r swyddi, ac felly ni fydd angen cyflwyno cais. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn hysbys tan fydd gennym strwythur staffio ar waith. Unwaith y bydd hyn ar waith,</p>

	byddwn yn ymgynghori â'r holl staff am y strwythur arfaethedig a llenwi/recrwtio i'r swyddi.
Soniwyd bod diswyddiadau yn annhebygol, fodd bynnag a yw'n bosibl terfynu contractau pobl ar y pwynt hwnnw os nad oes eu hangen ar gyfer y strwythur newydd?	Rydym yn ceisio osgoi diswyddiadau lle bo modd a chanfod datrysiadau amgen cyn diswyddo, rydym yn gobeithio na fydd angen unrhyw ddiswyddiadau. Fodd bynnag, os yw'r strwythur newydd yn golygu nad oes digon o swyddi ar gyfer yr holl staff yna mae'n bosibl y bydd rhai staff yn cael eu diswyddo.
A fydd gan bawb gontract newydd ac amodau a thelerau newydd?	Bydd, fodd bynnag, mae'r amodau a thelerau yn eithaf cyffredin h.y. amodau a thelerau athrawon neu staff cefnogi ac amodau a thelerau NJC.
A fydd yn effeithio ar ein horiau a'n cyflog e.e. athro/athrawes yn symud i lawr y raddfa gyflog?	Gan dybio bod Polisi Cyflog CSDd yn berthnasol yn os yw athro/athrawes ar bwynt cyflog penodol yn awr yna nid wyf yn rhagweld hyn yn gostwng. Mae posibilrwydd y bydd athrawon sy'n derbyn taliadau ychwanegol yn colli'r taliad hwn.

ATODIAD E

Crynodeb o'r ymatebion drwy Ffurflen Ymateb Ffurfiol i'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1 Ydych chi o blaid y Cynigion?

	Cyfanswm
Ydw	95
Nac ydw	5
Dim ateb	0
	100

Cwestiwn 2: Dywedwch wrthym, ydych chi'n ymateb fel:

Math	Cyfanswm
Disgybl	4
Rhiant	38
Aelod o Staff	29
Aelod o'r Gymuned	14
Llywodraethwr Ysgol	6
Arall	7
Rhiant/ Llywodraethwr	2
	100

Cwestiwn 3: Gyda pha ysgol y mae eich cysylltiad agosaf?

Math	Cyfanswm
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	21
Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones	64
Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones	7
Arall	2
Ysgol Bryn Hedydd	1
Ysgol Llywelyn	1
Ysgol y Santes Ffraid	1
Dim / Heb ateb y cwestiwn	3
	100

Cwestiwn 4: Dywedwch wrthym a yw unrhyw un o'r canlynol wedi dylanwadu ar eich penderfyniad:

Math	Cyfanswm
Effaith ar addysg	62
Effaith ar y gymuned leol	17
Wedi ticio'r ddau – effaith ar addysg a'r gymuned leol	17
Cyfanswm	96
Materion a godwyd o dan bennawd "Arall" (gallai ymatebwyr fanylu ar fwy nag un "arall")	
Arall: Bydd yn sicrhau dewis ffydd/eglwys cynaliadwy ar gyfer y rhieni.	10
Arall: Bydd y cynnig yn darparu dewis amrywiol ar gyfer y rhieni.	6
Arall: Manteision model 3-16	5
Arall: Bydd yr ysgol newydd yn hybu hyder pawb ac yn darparu amgylchedd sy'n addas ar gyfer ein pobl ifanc.	4
Arall: Bydd gwella'r cyfleusterau yn darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol.	3
Arall: Mae'r ddwy ysgol yn wynebu trafferthion gyda'r hen adeiladau, gwaith cynnal a chadw a diffyg adnoddau/cyfleusterau.	3
Arall: Mae adeilad y Bendigaid Edward Jones wedi gweld dyddiau gwell, bydd y buddsoddiad yn rhoi pwrpas a balchder i'r disgyblion.	2
Arall: Mae plant yn haeddu adeilad sy'n addas i bwrpas ac mae hyn yn symud gyda'r oes.	1
Arall: Buddsoddiad sydd wir ei angen	1
Arall: Nid oes gan grwpiau sy'n ceisio credorfodi ein plant unrhyw le yn y system addysg.	1
Arall: Amrywiaeth dda o athrawon.	1
Arall: Bydd cyfleusterau gwell yn debygol o wella ymddygiad a bydd presenoldeb yn gwella.	1
Arall: Ddim yn siŵr os mai cyfuno'r 2 ysgol yw'r syniad gorau.	1
Arall: Os na fydd y cynllun yn cael ei ddarparu byddai addysg uwchradd Gatholig yn y Rhyl yn dod i ben, mae'r ysgol gyfagos yn llawn a byddai'n rhaid i sawl disgybl deithio y tu hwnt i'w hardal leol.	1
Arall: Ysgol ffydd yn rhoi dechrau gwell i ddisgyblion.	1
Arall: Ansawdd addysg yn hollbwysig – materion difrifol gyda'r ddau adeilad ar hyn o bryd a chapasiti i ddarparu addysg o'r radd flaenaf.	1

Arall: Deall pam fod rhieni yn dewis ysgol amgen – os ydynt yn ymweld ag ysgol newydd o'r radd flaenaf ac yna ysgol gyda chyfleusterau gwael, sydd yna'n effeithio ar y cwricwlwm.	1
Arall: Ni ddylai'r rhieni a'r disgyblion orfod cyfaddawdu a dylai'r teuluoedd Catholig gael y gallu i dderbyn addysg o'r radd flaenaf o fewn yr ethos Catholig.	1
Arall: Byddai'r ddwy ysgol yn elwa (o safbwynt addysg) o dderbyn adeiladau newydd, gwisgoedd newydd a phennaeth newydd.	1
Arall: Mae ein plant yn haeddu addysg dda a byddai ei gael gydag ethos Catholig yn fwy gwerthfawr.	1
Arall: Mae cymuned fechan gydag awyrgylch teuluol yn bwysig iawn i'r holl blant sy'n mynychu'r ysgol Gynradd gan fod llawer o'r plant yn dod o gartrefi heb deuluoedd llwyddiannus. Byddai'r awyrgylch hwnnw'n cael ei golli mewn sefydliad mwy.	1

Cwestiwn 5: Oes gennych chi unrhyw opsiynau amgen i'r cynnig presennol yr hoffech i Gyngor Sir Ddinbych ac Esgobaeth Wrecsam eu hystyried:

Opsiynau amgen a ystyriwyd	Ymateb y Cynigwyr
Uwchraddio'r ddwy ysgol bresennol.	Mae'r Awdurdod Lleol yn credu nad yw'r opsiwn hwn yn gynaliadwy ar gyfer dyfodol addysg Gatholig yn Sir Ddinbych. O ran y cynnig uwchradd, byddai'r ysgol yn rhy fawr ac felly byddai lleoedd dros ben yn parhau. Byddai'r awgrym yn golygu na fyddai'r 2 ysgol yn uno ac felly byddai ganddynt gyrrff llywodraethu ar wahân, a fyddai'n golygu na fyddai'r manteision o ran cydlywodraethu yn cael eu gwireddu.
Mae angen ysgolion seciwlar nid sefydliadau sy'n gwahaniaethu. Nid oes gan dros 56% o bobl Cymru unrhyw gred grefyddol. Nid oes lle i'r math hwn o ysgol ym myd addysg y wladwriaeth yn yr 21ain ganrif.	Mae'r ddwy ysgol o dan Esgobaeth Gatholig Wrecsam ar hyn o bryd ac ni fydd y cynnig hwn yn newid hyn.
Mae anghenion plant yr ysgolion cynradd yn cael eu colli yng nghanol anghenion disgyblion uwchradd, felly rwy'n teimlo y dylid cadw'r ddwy ysgol fel sefydliadau ar wahân hyd yn oed os	Mae'r Awdurdod Lleol a'r Esgobaeth wedi gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu'r ddwy ysgol i symud y cynnig yn ei flaen. Mae'r ddau gorff llywodraethu yn cefnogi'r cynnig ac yn cydnabod bod hyn yn gyfle a fydd o fudd i'r holl ddisgyblion.

<p>yw'r rheolaeth a'r llywodraethwyr yn cael eu cyfuno.</p>	<p>Bydd y cynnig yn darparu gwell amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion oedran cynradd a bydd gweledigaeth 3-16 yn diddymu'r pwynt pontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd sy'n gallu cael effaith negyddol ar y plant.</p> <p>Ymgynghorwyd â'r disgyblion a'r staff yn y ddwy ysgol a bydd hyn yn parhau ar ôl penodi contractwr i ystyried dyluniad yr ysgol newydd.</p> <p>Bydd y Corff Llywodraethu Dros Dro newydd ar gyfer yr ysgol newydd, yn cynnwys llywodraethwyr o'r ddwy ysgol er mwyn sicrhau bod y ddwy ysgol yn cael eu cynrychioli'n gyfartal.</p>
---	---

Cwestiwn 6: Os yw'r Cynnig yn cael ei weithredu a fydddech chi'n anfon eich plentyn/plant i'r ysgol 3-16 newydd neu a fydddech chi'n dewis ysgol arall? Pe byddech chi'n dewis ysgol arall, pa ysgol fydddech chi'n ei dewis a pham?

Math	Cyfanswm
Ysgol 3-16 newydd	49
Heb ateb y cwestiwn, amherthnasol neu ansicr	39
Arall – gweler y pwyntiau isod	14
Cyfanswm	102
Arall:	
Ddim yn gwybod ar hyn o bryd.	1
Nid wyf yn byw yn y Sir ond pe bawn yn byw yn y Rhyl byddwn yn eu hanfon yno.	1
Byddwn yn ei ystyried.	1
Gobeithio y bydd fy wyrion/wyresau yn mynychu'r ysgol newydd.	1
Na- rwyf eisiau i fy mhlentyn fod mewn ysgol gynradd nid sefydliad mawr.	1
Ni ddylai unrhyw blentyn gael cynnig lle mewn ysgol gan system y wladwriaeth sy'n ceisio hyrwyddo pwynt diddordeb arbennig, sy'n wahaniaethol ac nad yw'n cynnwys yr holl bobl yn y gymuned leol.	1
Byddwn yn anfon fy merch i'r ysgol newydd, pe bai'r athrawon presennol yn cael eu hail-asesu a bod athrawon newydd yn cael eu darparu i ddisodli'r athrawon nad ydynt yn cyflawni'r safon ofynnol er mwyn gwella safon yr ysgol uwchradd. Aeth fy merch hynaf i Ysgol y Bendigaidd Edward Jones a byddai wedi gwneud yn llawer gwell pe bai'r athrawon yn gyson ac yn ei hannog, Hefyd mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn yr ysgol uwchradd yn	1

amlyg yn siarad yn wael am y pennaeth cyfredol ac nid oes ganddynt ots am yr ysgol yn gyffredinol. Mae angen gwneud newidiadau mawr o ran y safonau dysgu cyn y gallaf ystyried yr ysgol newydd ar gyfer fy merch.	
Byddai'r penderfyniad yn seiliedig ar safon yr addysg, polisiau disgyblu ac ymddygiad sydd ar gael.	1
Mae fy mhlant yn hŷn nag oedran yr ysgol ond hoffwn weld addysg ffydd dda yn parhau yn y sir.	1
Nid oes gennyf blant ond byddwn yn dewis yr ysgol hon cyn y rhai eraill oherwydd mae'n cynnig addysg gydag ymagwedd gyffredinol o ran ystyr lle y gellir ffurfio cymuned a lle y gellir trafod a datblygu gwerthoedd, yn enwedig y rhai i ofalu am y bydysawd. Nid yw crefydd yn cael ei roi o'r neilltu na'i wneud yn breifat, ond yn cael ei drafod yn agored ac yn gyfannol.	1
Byddwn yn annog rhieni i anfon eu plant i'r ysgol newydd hon, mynychodd fy mhlant Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones ac mae'r ddau wedi gwneud yn dda iawn.	1
Byddwn yn argymhell bod yr holl rieni yn Sir Ddinbych sydd eisiau Ysgol Eglwysig ar gyfer addysg eu plant yn anfon eu plant i'r ysgol newydd.	1
Byddwn yn anfon fy mhentyn i'r ysgol newydd ac rwy'n credu bod yr opsiwn 3-16 yn un da yn enwedig gan y byddai'n lleihau'r effaith o ran symud o addysg gynradd i addysg uwchradd. Fodd bynnag, erbyn y bydd yr ysgol wedi'i hadeiladu, byddai fy mhentyn ym mlwyddyn olaf ei haddysg felly ni fyddai'r buddion yn cael eu gwireddu ar ei chyfer hi.	1
Yn bersonol byddai'n rhaid i mi ganfod yr Ysgol Gynradd Gatholig agosaf ar gyfer 3 i 11 ac yna ystyried addysg Uwchradd.	1

Cwestiwn 7: Nodwch unrhyw sylw sydd gennych chi, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar y Cynigion presennol:

Mae'r ymatebion hyn wedi'u grwpio fesul thema isod ochr yn ochr â'r ymateb neu'r eglurhad gan yr awdurdod lleol

Crynodeb o'r Sylwadau
Model 3-16:
12 o ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn
Gwella'r cyfnod pontio ar gyfer plant sy'n symud o ysgolion cynradd i uwchradd, sefydlu amgylchedd gwell, gellir dylunio ac addysgu'r cwricwlwm drwy holl flynyddoedd yr ysgol a bydd athrawon yn dod i adnabod y disgyblion drwy gydol eu bywyd yn yr ysgol. Gwella datblygiad gyrfaal ar gyfer staff y ddwy ysgol. Syniad gwych, nid yw'n anarferol gan fod y 2 ysgol mor agos ac yn cydweithio'n barod.

Cyfle gwych i'r gymuned leol a'r ysgol i fod yr Ysgol Gatholig 3-16 gyntaf o'i math yng Nghymru.

Byddai hyn yn darparu cyfle i gael strwythur arweinyddiaeth ganol ac uwch effeithlon ac effeithiol a strwythur cefnogi gweinyddol a chyfleusterau a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau eraill.

Defnyddiol ar gyfer athrawon yn y cam uwchradd i gael dealltwriaeth glir o lythrennedd a rhifedd, y dulliau addysgu sy'n gweithio yn y cam cynradd.

Mae addysg 3-16 yn well, rheolaeth yn well, yn symlach ac mae adnoddau'n cael eu rhannu.

Colled fawr pe bai'n rhaid cau unrhyw un o'r ysgolion –y model hwn yw'r un mwyaf hyfyw yn economaidd ar hyn o bryd.

Bydd hyn yn galluogi'r ddwy ysgol i ddatblygu a gwella'r arferion da sydd ganddynt eisoes. Wrth i'r cwricwlwm barhau i ddatblygu, bydd staff yr ysgol newydd yn y sefyllfa berffaith ar gyfer ymchwilio, cynllunio ac ymateb i'r heriau a chyfluoedd newydd sy'n debygol o godi'n genedlaethol yn y 3-15 mlynedd nesaf.

YMATEB:

Credwn fod gan y model 3-16 nifer o fanteision ar gyfer disgyblion a staff fel y nodwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol ac mae'r cynigwyr yn cefnogi'r weledigaeth o ysgol 3-16 oed.

Angen cyfleusterau newydd:

13 o ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn

Mae'r plant a'r staff yn Ysgol Mair yn haeddu ysgol fodern newydd a chyfleusterau newydd.

Bydd y ddwy ysgol yn elwa o'r adeilad newydd. Mwy o amrywiaeth o offer ar y maes chwarae. Mae'r disgyblion yn haeddu cyfleusterau newydd. Mae Ysgol y Bendigaid Edward Jones wedi gweld dyddiau gwell.

Mae'r adeiladau yn dangos eu hoed ac angen buddsoddi arian sylweddol arnynt i'w cadw'n ddiogel ac yn ddefnyddadwy. Mae'r ysgol uwchradd wedi'i dylunio'n wael ac er ei bod yn ysgol ffydd gynhwysol a gofalgarnid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dyluniad. Materion hygyrchedd mawr. Nid yw'r cyfleusterau'n addas i'r pwrpas.

Bydd y cynnig yn darparu addysg well gydag adnoddau o'r radd flaenaf a chyda hynny, pob cyfle posibl i gyflawni'r hyn y mae ganddynt y gallu i'w gyflawni yn holl feysydd datblygiad personol a dysgu.

Gan fod y trefniant ar gyfer yr adran uwchradd yn seiliedig ar 4 dosbarth mynediad, dylai holl gyfleusterau'r ysgol (neuadd yr ysgol, ardaloedd bwyta, cyfleusterau toiled, gofodau cymdeithasu, ardaloedd hamdden) a gofodau addysgu arbenigol - nifer a meintiau- ganiatáu ar gyfer nifer posibl o 120 y flwyddyn gan y bydd ysgol lwyddiannus gyda 4 dosbarth yn denu dosbarthiadau llawn o 30 disgybl ym mhob dosbarth.

YMATEB:

Mae gan y ddwy ysgol ôl-groniad o waith cynnal a chadw sylweddol ac rydym yn cydnabod y bydd angen buddsoddi yn adeiladau'r ddwy ysgol er mwyn iddynt fod o safon sy'n adlewyrchu ysgol yr 21ain Ganrif. Y gwerth amcangyfrifedig gan CSDd ar gyfer y gwaith cynnal a chadw sy'n weddill ar gyfer Ysgol Mair yw £402,429 a gwerth amcangyfrifedig safle presennol y Bendigaid Edward Jones yw £1,334,802. Mae'r costau cynnal a chadw yn cynrychioli'r lleiafswm o waith sy'n ofynnol i gynnal y cyfleusterau cyfredol a ni fyddai'n gwella'r amgylchedd addysgu bresennol.

O ran yr adeilad newydd, bydd yn cael ei ddylunio i sicrhau bod Bwletin Adeiladu 98: BB98 (Fframwaith ar gyfer prosiectau ysgolion uwchradd) a Bwletin Adeiladu 99: BB99 (Fframwaith ar gyfer prosiectau ysgolion cynradd) yn cael eu diwallu. O ran maint yr adran uwchradd mae'r cynnig yn nodi ei fod ar gyfer isafswm o 500 a bydd ystyriaethau o ran cynyddu'r rhif hwn yn cael eu hystyried yn ystod y cam dylunio.

**Addysg Gatholig yn Sir Ddinbych:
13 o ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn**

Byddai ysgol newydd yn cynnig dyfodol gwell ac yn adfywio addysg ffydd yn y Rhyl a Gogledd Sir Ddinbych, ysgol newydd yn hanfodol ar gyfer y ddwy ysgol er mwyn adfer addysg ffydd yn y sector cynradd ac uwchradd. Mae'n bwysig cael mynediad i addysg ffydd. Er y bydd yr ysgol newydd yn ysgol 'Gatholig' mae'n rhaid egluro bod yr ysgol yn croesawu pawb.

Ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac i sicrhau bod addysg Gatholig yn cyd-fynd â'n hanghenion addysgol.

Menter gadarnhaol iawn ar gyfer addysg Gatholig.

Cyfle gwych i wella darpariaeth addysg Gatholig.

Bydd yn darparu dewis Eglwysig o ansawdd ar ddiwedd Blwyddyn 6 ar gyfer plant eraill yn Sir Ddinbych. Cyfle unigryw i ddarparu darpariaeth addysgol sy'n gallu bod yn 'sefydliad disglair' ar gyfer Addysg Gatholig ond hefyd ar gyfer darpariaeth addysg yn gyffredinol yn Sir Ddinbych ac ar draws Cymru. Mae'n hollbwysig a hanfodol ein bod yn monitro a rheoli'r broses Dderbyn ar gyfer yr ysgol Gatholig newydd er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cynnal natur ac ethos Catholig bob amser. Os adeiladir yr ysgol newydd yna bydd angen atgyfnerthu'r cysylltiadau gyda'r plwyfi lleol er mwyn iddynt gefnogi'r ysgol gyda'r fenter newydd hon. Bydd yn caniatáu darparu addysg mewn amgylchedd Cristnogol, ac i fynd o nerth i nerth.

Bydd datblygu model Catholig newydd yng Ngogledd Sir Ddinbych yn gwella a datblygu darpariaeth addysg a byddwn yn cefnogi'r cynnig hwn. Fodd bynnag, mae gan Esgobaeth Llanelwy naw ysgol fwydo yn Sir Ddinbych ac yn teimlo bod y galw am addysg uwchradd Anglicanaidd yn gryf. Byddwn yn croesawu'r cyfle i ddatblygu'r ddarpariaeth mewn partneriaeth yn y dyfodol.

YMATEB:

Mae'r Awdurdod Lleol a'r Esgobaeth yn credu bod yr opsiwn hwn yn gynaliadwy ar gyfer dyfodol addysg Gatholig yn Sir Ddinbych.

O ran derbyniadau, bydd y polisi Derbyniadau yn cael ei ddrafftio gan y Corff Llywodraethu Dros Dro a bydd yr ysgol yn gyfrifol am ei dderbyniadau ei hun.

Nodir y sylwadau ynglŷn â darpariaeth Anglicanaidd.

**Cefnogi'r cynnig:
22 o ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn**

Cynnig cadarnhaol y gall disgyblion a rhieni freuddwydio amdano'n unig yn flaenorol.

Wedi ystyried y 2 ysgol fel rhai wedi'u huno erioed gan eu bod yn rhannu'r un ffydd, ethos a gwerthoedd - bydd y cynnig hwn yn atgyfnerthu'r cysylltiadau hyn er budd y disgyblion, teuluoedd a'r plwyf. Mawr ei angen, cefnogol iawn, a gobeithio y bydd yn cael ei gyflawni. Cefnogi'r cynnig hwn. Cynnig rhagorol. Cyffrous.

Mawr ei angen, taith hir i gyrraedd y pwynt hwn, angen mynd i'r afael a hyn a'i wireddu. Angen ei gyflawni.

Cyfle gwych ar gyfer Addysgwyr, addysg a phobl ifanc Rhyl – rwy'n ei gefnogi'n llwyr. Awyddus ei weld yn cael ei wireddu. Llwyr gefnogi'r prosiect. Cynllun gwych, mae'n hyfryd, mae angen buddsoddiad yn yr ardal. Cyfle gwych i greu a bod yn rhan o rywbeth arbennig y gall pawb fod yn falch ohono. Dim sylwadau negyddol o gwbl. Mae'r cynnig yn gyfle gwych ar gyfer y Rhyl a'r ardal gyfagos. Mae'r ysgol arfaethedig ar safle ysgol bresennol felly ni fyddai unrhyw gostau cludiant ychwanegol. Bydd darparu ysgol newydd yn y Rhyl yn darparu cyfleoedd swyddi a hyfforddiant i'r gymuned leol.

YMATEB:

Pwyntiau wedi'u nodi.

Pryderon ynglŷn â'r Bendigaid Edward Jones:

2 o ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn

Mae'r Bendigaid Edward Jones mewn trafferthion ar hyn o bryd, y statws presennol yn peri pryder, fel teulu Catholig roeddem yn bwriadu eu hanfon i'r Bendigaid Edward Jones fodd bynnag gan fod Ysgol Uwchradd newydd yn y Rhyl yn awr nid ydym yn sicr.

Mae nifer uchel o leoedd ar gael ac effaith ariannol niferoedd isel o ddisgyblion yn cael effaith ar ystod y pynciau y gellir eu cynnig. Mae llai o ddewisiadau pwnc yn golygu bod yr ysgol yn llai deniadol a chyda ysgol uwchradd gyfoes newydd gerllaw mae'n anodd gweld sut y gellir gwella'r sefyllfa. Effaith ar reolwyr uwch a chanol yn y ddwy ysgol, gyda'r ddwy ysgol yn cael trafferth dod o hyd i fodel fforddiadwy.

YMATEB:

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol o effaith adeilad newydd Ysgol Uwchradd y Rhyl ar y niferoedd yn y Bendigaid Edward Jones. Mae'r cyrff llywodraethu yn Ysgol Mair a'r Bendigaid Edward Jones yn cydnabod er mwyn cynnal y cynnig Catholig mae'n rhaid bod yn arloesol ac mae'r model 3-16 yn cynnig dewis gwahanol ar gyfer y rhieni.

Mae'n rhaid i'r ddwy ysgol rannu'r neges gyda'r gymuned leol ac ymhellach o ran marchnata'r ysgol newydd a chael pobl i'w chefnogi yn awr, yn ystod y cyfnod pontio a thu hwnt. Bydd angen gweithio i sicrhau bod y gymuned yn gwybod y gall disgyblion ddechrau ym Mlwyddyn 7 ar ôl mynychu ysgolion cynradd eraill yn yr ardal.

Pryderon gan staff:

5 o ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn

Mae'r staff yn Ysgol Mair yn gwneud gwaith gwych, gobeithio yr ystyrir eu dyfodol yn drylwyr, mae angen i aelodau rhagorol o staff barhau gyda'r plant ar eu taith i'r ysgol newydd.

Mae'n rhaid hysbysu staff ynglŷn â datblygiadau - mae mwy o eglurder a thryloywder ar bob cam gyda'r holl fudd-ddeiliaid yn hanfodol. Pryder y gall y Corff Llywodraethu Dros Dro benderfynu gwneud i'r staff ailymgeisio am eu swyddi presennol. Mae'n bwysig y gall aelodau o staff gyfrannu at y dyluniad er mwyn osgoi gwallau dylunio.

Mae anghenion yr ysgol gynradd yn cael eu colli ymysg anghenion yr ysgol uwchradd, os yw hyn yn digwydd yn y camau cynllunio cychwynnol yna pan neu os caiff y ddwy ysgol eu cyfuno ni fydd llais ar gyfer yr adran gynradd ac mae'r adran gynradd yn cynrychioli mwyafriif y blynyddoedd ysgol y mae plentyn yn eu treulio mewn addysg statudol. Os yw'r ysgol newydd arfaethedig yn cael ei

chymeradwyo mae'n rhaid darparu canolbwynt clir yn y polisi derbyniadau er mwyn cadw natur unigryw ysgol Gatholig ac nad yw'n cael ei wanhau gan y galw i gynyddu'r niferoedd yn yr elfen uwchradd. Os yw'r ysgol newydd yn cael ei darparu mae'n rhaid darparu llais cyfartal ar gyfer y ddwy ysgol ac mae'n rhaid rhannu'r holl drefniadau, cynlluniau ac ati ar yr un pryd. Ni ddylai unrhyw unigolyn neu ysgol gael dominyddu'r trafodion. Dylai'r holl gyfarfodydd gynnwys cynrychiolwyr o'r ddwy ysgol.

YMATEB:

Mae staff yr ysgol a'r cyrff llywodraethu wedi'u cynnwys mewn trafodaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori ac maent oll wedi'u gwahodd i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau. Bydd y ddwy ysgol yn cyfrannu at y cyfarfodydd dylunio a byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori ynglŷn â'r dyluniad gyda'r staff, disgyblion a'r gymuned.

Bydd y Corff Llywodraethu Dros Dro yn cynnwys y 2 gorff llywodraethu presennol gyda chyfraniad cyfartal gan bob ysgol bresennol. Bydd hon yn ysgol gwbl newydd yn cynnwys yr ysgol gynradd - Ysgol Mair a'r ysgol uwchradd - y Bendigaidd Edward Jones.

Pryderon ar ôl ei hadeiladu:

1 o ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn

Mae angen i'r Cyngor gynnal yr adeilad newydd, nid oes ganddynt hanes blaenorol da o gynnal adeiladau - mae angen rhoi cynllun ar waith.

YMATEB:

Gan y bydd yr ysgol newydd yn un a Gynorthwyr yn Wirfoddol ac o dan Esgobaeth Wrecsam bydd angen llunio cynllun cynnal a chadw rhwng yr Awdurdod Lleol ac Esgobaeth Wrecsam sy'n amlinellu'n glir pwy fydd yn gyfrifol am wahanol bethau o ran yr adeilad a'r gwaith cynnal a chadw.

Cymuned:

2 o ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn

Byddai colli'r ddwy ysgol yn andwyol i les cymaint o bobl ifanc, mae'r ddwy yn darparu cymuned gefnogol i mi ac eraill, gyda chymuned ffydd agos. Byddai modd darparu ysgol sy'n agored i'r gymuned yn y gyda'r nos i'w rhentu ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau, clybiau ac ati.

YMATEB:

Bydd defnydd cymunedol yr ysgol yn cael ei drafod yn fanylach yn ystod y cam dylunio.

Disgyblion iau ochr yn ochr â'r rhai hŷn:

3 o ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn

Pobl yn nodi pryderon bod plant 3 oed gyda'r plant 15 oed, peri gofid gan fod pobl wedi bod yn anfon eu plant i'r ysgol yn y Dyffryn ers blynyddoedd a bod eu grŵp oedran yn 3-18. Bydd yn dda cael brodyr a chwiorydd yn yr un ysgol. Ystyried dylanwad y gall pobl yn eu harddegau ei gael ar blant ifanc.

YMATEB:

Gall y model 3-16 weithio'n dda iawn pan drefnir yr ysgol yn dda a phan gynllunnir diwrnod yr ysgol yn effeithiol.

Bydd y cyfnodau allweddol wedi'u gwahanu. Mae'r ethos y gellir ei greu ar gyfer ysgol 3-16 yn un gofalgar a gall fod yn gadarnhaol ar gyfer yr holl grwpiau oedran. Efallai y bydd diwrnod yr ysgol yn cael ei drefnu fesul cyfnodau gydag amseroedd dechrau, amseroedd cinio ac amseroedd gorffen gwahanol ar gyfer y grwpiau

blwyddyn gwahanol - bydd hyn yn cael ei gyfuno gan y Corff Llywodraethu Dros Dro.

Dalgylch ehangach:

1 o ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn

Da ar gyfer y Rhyl, ond hefyd yn dda ar gyfer plwyfi ehangach Abergele, Prestatyn, Llanelwy a Dinbych.

YMATEB:

Bydd yr ysgol yn y Rhyl ond bydd cymunedau eraill yn derbyn mynediad iddi yn enwedig rhai sydd ag ysgolion cynradd Catholig.

Parcio a phroblemau traffig:

4 o ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn

Ar hyn o bryd mae problemau mawr ar St. Margaret's Drive, angen mynediad ar Cefndy Road yn unig. Pryderu am leoliad y fynedfa. Darpariaeth ar gyfer parcio, pwyntiau casglu a gollwng.

YMATEB:

Yn ystod y broses ddylunio bydd adran Priffyrdd CSDd yn cyfranogi i sicrhau bod y cynlluniau yn ddiogel. Rhoddir ystyriaeth o ran strwythur diwrnod yr ysgol a sut y caiff ei gynllunio ynghyd â'r effaith ar strydoedd cyfagos.

Gobeithir y bydd yr ysgol newydd yn gwella sefyllfa'r briffordd, nid ei gwneud yn waeth.

Aflonyddwch oherwydd y gwaith adeiladu:

2 o ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn

Pryderon o ran sut y cyflawnir yr adeilad newydd a faint o aflonyddwch y bydd yn ei achosi i'r disgyblion.

Bydd gwaith adeiladu, sŵn ac aflonyddwch yn anochel ond gobeithio o ystyried profiad blaenorol CSDd gydag adeiladu ysgolion newydd bydd yr aflonyddwch yn cael ei gadw i'r isafswm posibl a chyda iechyd a diogelwch disgyblion, staff a'r gymuned leol yn flaenoriaeth.

YMATEB:

O ran y gwaith adeiladu, byddai'r contractwr yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion i sicrhau iechyd a diogelwch y disgyblion a'r staff fel blaenoriaeth uchel yn ystod y broses adeiladu. Cynhaliwyd trafodaethau rhagarweiniol gyda chontractwyr ac mae'n amlwg y byddai angen cynllun clir wedi'i reoli'n dda er mwyn sicrhau nad yw'n amharu'n ormodol ar addysg y disgyblion.

Maes Chwarae Ffordd Derwen:

1 o ymatebwyr wedi codi'r pwyntiau hyn

Gallai Sir Ddinbych ddarparu'r trac athletau cyntaf ar gyfer y sir a fyddai'n caniatáu i blant ac oedolion dderbyn mynediad i glybiau athletau. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i ni fel sir i beidio â gorfod teithio i Lannau Dyfrdwy neu Barc Eirias er mwyn defnyddio trac athletau.

YMATEB:

Mae'n bwysig rheoli disgwyliadau yn y cam cynnar hwn. Ein nod yw gwneud y defnydd gorau posibl o'r gofod ar y safle a chadw'r ddarpariaeth oddi ar y safle. Byddwn yn ystyried gwella hygyrchedd hyn.

ATODIAD F

Ymateb Estyn

Ymateb Estyn i gynnis Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Ysgol Gatholig 3-16 oed newydd yn y Rhyl.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnis ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr, a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barnau'r Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnis.

Crynodeb / Casgliad

Mae'r cynigiwr wedi amlinellu'n addas fanteision ac anfanteision posibl y cynnis i gau Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaidd Edward Jones, ac agor ysgol Gatholig newydd 3 i 16 oed ar safle'r ddwy ysgol flaenorol. Ym marn Estyn, mae'r cynnis o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Y cynnis yw cau Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaidd Edward Jones ac agor ysgol Gatholig newydd 3 i 16 oed ar y safle presennol sy'n cael ei rannu. Bydd y cynnis yn cynyddu nifer y lleoedd yn y cyfnod cynradd o 378 o ddisgyblion i 420 o ddisgyblion ac yn darparu o leiaf 500 o leoedd cyfnod uwchradd. Hefyd, mae'r cynnis yn cynnwys ymrwymiad i barhau â darpariaeth nas cynhelir ar y safle.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi sail resymegol glir dros y cynnis ac wedi amlinellu'r manteision y mae'n eu priodoli i addysg mewn ysgol pob oed. Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn briodol fanteision ac anfanteision cymharol y cynnis o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Er enghraifft, mae wedi dangos yn glir fod cyflwr yr adeiladau presennol yn wael ac nad yw'r cyfleusterau yn Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaidd Edward Jones yn caniatáu i'r ysgol gynnis cwricwlwm digon eang. Fodd bynnag, mae'r cynigiwr wedi dangos y bydd y niferoedd a ragwelir erbyn 2021 yn dal i adael dros 300 o leoedd gwag yn yr ysgol. Mae'r cynnis yn amlinellu'r diffygion a ragwelir yn y cyllidebau ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaidd Edward

Jones ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2017/2018 a 2018/2019. Nid yw'r cynigiwr wedi ystyried yn ddigon da sut bydd yr ysgol yn cael ei chefnogi'n ariannol yn ystod ei blynyddoedd cyntaf o weithredu wrth i garfanau bychain symud, yn benodol, drwy gyfnod uwchradd yr ysgol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn briodol yr effaith ar yr ysgolion eraill yn yr ardal y gallai'r cynigion effeithio arnynt. Mae wedi amlinellu sut gallai'r ysgol newydd gynnig lleoedd i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd y mae mwy o alw na lleoedd ynddynt ar hyn o bryd. Mae'r cynigiwr wedi dangos yn briodol fod disgwyl i nifer y disgyblion gynyddu yn Ysgol Uwchradd y Rhyl a'r posibilrwydd na fyddai digon o le gan yr ysgol honno i dderbyn disgyblion o Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones pe bai Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones yn rhoi'r gorau i ddarparu addysg uwchradd.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y cynnig ar drefniadau teithio dysgwyr. Mae'n bwriadu parhau i gefnogi teithio o'r cartref i'r ysgol yn unol â pholisi'r cyngor ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae'r cynigiwr wedi cwblhau asesiad cychwynnol o'r effaith ar gydraddoldeb, a ddaeth i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar grŵp penodol mewn cymdeithas. Hefyd, mae'r cynigiwr yn ystyried effaith y cynigion ar yr iaith Gymraeg ac mae'n dod i'r casgliad rhesymol na fydd effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg na'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg yn yr ardal.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi darparu tablau o ddata perfformiad ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen, cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4. Mae'r tablau'n darparu gwybodaeth am berfformiad yr ysgolion o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, yr awdurdod lleol a Chymru. Fodd bynnag, prin yw'r dadansoddiad o'r wybodaeth a ddarperir yn y tablau. Nid yw'r cynigiwr yn darparu data ar berfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 3. Mae'r darparwr yn ystyried yn briodol na ddylai fod unrhyw effaith andwyol ar gynnydd a lles disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Am y tair blynedd diwethaf, mae'r consortiwm lleol wedi gosod Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn y categori cymorth lliw oren, sy'n dangos bod angen gwelliant ar yr ysgol. Gosododd y consortiwm lleol Ysgol y Bendigaid Edward Jones yn y categori cymorth lliw oren yn 2014 ond yn y categori cymorth lliw coch am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn dangos bod angen gwelliant a chymorth dwys ar yr ysgol. Hefyd, fe wnaeth y cynigiwr ystyried deilliannau arolygu diweddaraf Estyn ac Adran 50 ar gyfer y ddwy ysgol yn briodol. Arolygwyd Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair gan Estyn yn 2016 a barnwyd bod ei pherfformiad presennol a'i rhagolygon gwella yn ddigonol. Gosodwyd yr ysgol mewn categori gweithgarwch dilynol, sef monitro gan Estyn. Bydd Estyn yn ymweld â'r ysgol eto yn 2017 i arolygu'r cynnydd a wnaed gan yr ysgol yn erbyn ei hargymhellion ar gyfer gwella. Arolygwyd Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ddiwethaf yn 2012 a barnwyd bod ei pherfformiad presennol a'i rhagolygon gwella yn dda.

Mae'r cynigiwr wedi amlinellu'n addas y bydd y cynnig yn debygol o wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae'r cynigiwr yn dangos yn glir y bydd yr adeilad newydd yn cynnig amgylchedd dysgu gwell i'r holl ddisgyblion. Er enghraifft, mae'n amlinellu sut bydd yr adeilad newydd a'r cyfleusterau allanol gwell yn galluogi'r ysgol i ddarparu cyfleoedd addysg gorfforol, technoleg dylunio a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) gwell. Hefyd, mae'r cynigiwr yn disgrifio'n briodol sut bydd y cyfleusterau newydd yn galluogi'r ysgol i gynnig cwricwlwm mwy amrywiol a phriodol yng nghyfnod allweddol 4. Hefyd, mae'r cynigiwr yn sefydlu manteision cael ardal wedi'i rhannu, fel y capel a'r ardal fwyta, a manteision cefnogi'r pontio rhwng camau a chyfnodau allweddol addysg.